



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Gweithgareddau Cyffredinol a Dosbarthu'r Loteri

Adroddiad a Datganiadau Ariannol
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Rhif elusen 1034245

Yn yr adroddiad hwn ...

Yr hyn a wnawn...	2
Datganiad y Cadeirydd	3
Adroddiad Perfformiad ac Adolygiad Gweithredol	5
Datganiad y Prif Weithredwr	6
Ein blaenoriaethau	8
Budd i'r cyhoedd	11
Ein perfformiad yn gyffredinol	12
Uchafbwyntiau perfformiad yn erbyn amcanion allweddol	14
Creu gwytnwch	19
Y prif risgiau ac ansicrwydd	20
Adolygiad ariannol a busnes	26
Cydraddoldebau	33
Y Gymraeg	34
Materion sy'n ymwneud â llesiant a chynaliadwyedd	36
Y flwyddyn sydd i ddod	40



Adroddiad Atebolrwydd	44
Llywodraethu Corfforaethol	45
Ein Hymddiriedolwyr	45
Cadarnhad y Swyddog Cyfrifyddu	50
Datganiad Llywodraethu	51
Adroddiad ar Gynabyddiaeth Ariannol a Staff	64
Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio	74
Datganiadau Ariannol	75
Gweithgareddau Cyffredinol	75
Dosbarthu Arian y Loteri	112
Atodiadau (nad yw'n rhan o'r datganiadau ariannol)	133
Grantiau a roddwyd – Gweithgareddau Cyffredinol	134
Cyfarwyddiadau polisi'r Loteri Genedlaethol	149
Grantiau a roddwyd – Dosbarthu Arian y Loteri	151



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwydded Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

Yr hyn a wnawn...

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cyhoeddus swyddogol ar gyfer cyllido a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru.

Bob dydd, mae pobl ledled Cymru'n mwynhau'r celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddynt. Cynorthwywn i gefnogi a chynyddu'r gweithgarwch hwn drwy ddefnyddio'r cyllid cyhoeddus a roddir inni gan Lywodraeth Cymru a thrwy ddsbarthu'r arian a gawn gan y Loteri Genedlaethol.


Drwy reoli a buddsoddi'r cyllid hwn mewn gweithgarwch creadigol, cyfranna Cyngor y Celfyddydau at ansawdd bywyd pobl ac at lesiant diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Cymru.



Gwylwch ein hanimeiddiad byr sy'n esbonio pam mae'r Celfyddydau'n Bwysig

www.celf.cymru

Little Red Riding Hood (Roald Dahl), Ballet Cymru
(llun: Ffotograffiaeth Siân Trenberth)



Datganiad y Cadeirydd



Galluogi'r celfyddydau i ffynnu, nid goroesi'n unig

Wrth imi gnoi cil dros fy mlwyddyn gyntaf yn Gadeirydd ar Gyngor Celfyddydau Cymru, rwy'n teimlo cyffro mawr wrth weld tystiolaeth o genedl sy'n byrlymu o egni creadigol.

Rwyf wedi mynd ati yn y flwyddyn ddiwethaf i deithio'n eang ar draws Cymru, er mwyn gweld y gwaith sy'n cael ei wneud, cyfarfod ag artistiaid, a sgwrsio â phartneriaid sy'n gweithio mor galed gyda ni i sicrhau bod y celfyddydau'n rhywbeth byw. Mae'r bywiogrwydd, y dychymyg a'r egni pur a welais – mewn sawl man gwahanol – wedi bod yn agoriad llygad, yn ogystal ag yn ysbrydoliaeth.

Rydym i gyd yn gyfarwydd â gwaith rhagorol ein cwmnïau cenedlaethol, sy'n rhoi perfformiadau ardderchog yma yng Nghymru ac ym mhedwar ban byd. Ac ni fydd neb a oedd yno'n anghofio gweld 200,000 o bobl yn llifo i ganol dinas Caerdydd yn ystod dathliadau hynod Roald Dahl a drefnwyd gan Ganolfan Mileniwm Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru. Ond cefais brofiadau arbennig hefyd wrth weld gwaith y rheini sy'n sicrhau canlyniadau yr un mor rhagorol ar lawr gwlad.

O Ucheldre yng Nghaergybi i Blant y Cymoedd a Chelf ar y Blaen yng nghymoedd y de, mae gan Gymru rwydwaith sylweddol o sefydliadau sy'n

rhan o'u cymunedau lleol, a'r rheini'n dangos yn feunyddiol pa mor bwysig yw'r celfyddydau i lesiant ac ansawdd bywydau pobl.

Mae hyn wedi bod yn amlwg hefyd yn ein rhaglen adfywio cymunedol sy'n seiliedig ar leoliadau, sef *Creu Cymunedau Cyfoes*. O'r heol fawr yn Abertawe i'r cei yng Nghaernarfon, rwyf wedi gweld sut y mae artistiaid dawnus dros ben yn helpu cymunedau lleol i ganfod eu llais a chyfrannu at y prosiectau hynny sy'n gwella'r llefydd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt.

Mae darganfod a meithrin talent yn rhan o hanfod creadigol Cyngor y Celfyddydau. Pleser neilltuol felly oedd gweld effaith ein partneriaeth addysgol gyda Llywodraeth Cymru, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*. Mae sgiliau creadigol yn hollbwysig. Byddant yn rhan o bob maes busnes yn y dyfodol – yr economïau llwyddiannus yn y blynyddoedd i ddod fydd y rheini sy'n gallu manteisio ar eu potensial creadigol, gan sicrhau cynhwysiant cymdeithasol a rhoi pobl a sgiliau – 'cyfalaf dynol' – yn ganolog i'r cyfan. Yn y gymdeithas sydd ohoni, mae hwn yn adnodd yr un mor bwysig ag unrhyw adnodd economaidd arall.

Mae *Dysgu Creadigol* yn sicrhau bod arferion creadigol a thechnegau yn bywiogi a chefnogi pob elfen o gwricwlwm yr ysgol, gan wella safonau cyrhaeddiad a dysgu. Rydym yn gweld effeithiau rhyfeddol, gyda'r rhaglen yn bresennol mewn dros 500 o ysgolion yng Nghymru dros y tair blynedd hyd yma.

Mae datblygu sgiliau creadigol pobl ifanc yn flaenoriaeth naturiol. Ond mae ein cenhadaeth, sef sicrhau bod y celfyddydau yn ganolog i fywydau pobl, yn ehangach eto. Gan gofio'r effaith y gall y celfyddydau ei chael, mae'n hanfodol bod modd i drawstoriad mor eang â phosibl o'r cyhoedd yng Nghymru eu mwynhau.

Gan weithio gyda'r Cyngor eleni, rwyf wedi bod yn benderfynol y dylem wneud mwy i gyrraedd y cymunedau hynny sydd eto i fanteisio ar y gweithgareddau yr ydym yn eu hybu. Mae talent ym mhob man, ond nid felly'r cyfleoedd. Rhaid i hyn newid.

Bu newidiadau hefyd i Gyngor y Celfyddydau ei hun. Wrth i'r pwysau barhau ar gyllid cyhoeddus, mae'n bwysig bod cymaint o arian â phosibl yn cael ei wario'n uniongyrchol ar y celfyddydau. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cwtdogi ein costau a lleihau tua 25% ar nifer ein staff. Bu hon yn broses anodd i'n staff ymroddedig sy'n gweithio'n galed dros ben, ond dyma oedd y peth iawn i'w wneud.

I gloi, rhaid imi ddiolch i'm cydweithwyr rhagorol ar y Cyngor sydd mor hael wrth neilltuo'u hamser a rhannu'u harbenigedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ymddeolodd dwy o hoelion wyth y Cyngor – yr Is-Gadeirydd, Kate Woodward, a Margaret Jervis. Mae eu doethineb, eu profiad a'u craffter wedi cyfrannu'n fawr at ein gwaith. Maent yn gadael Cyngor sydd mewn sefyllfa well o lawer o ganlyniad i'r cyfraniad a wnaethant.




Phil George
Cadeirydd

82.9%

**o blant Cymru a fynychodd y
celfyddydau o leiaf unwaith y
flwyddyn neu'n amlach**

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant, 2016

Adroddiad Perfformiad ac Adolygiad Gweithredol



Dinas yr Annisgwyl (Roald Dahl) yng Nghastell Caerdydd
National Theatre Wales a Chanolfan Mileniwm Cymru
(llun: Geoff Craddick)

Datganiad y Prif Weithredwr



Cymryd camau i gryfhau'r celfyddydau

Mae llawer o'n gwaith yn ymwneud â chreu amgylchedd cefnogol sy'n galluogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ffynnu. Rydym yn credu'n gryf bod y celfyddydau yn gwella ein llesiant ac ansawdd ein bywydau, ac rydym yn benderfynol y dylai'r manteision hyn fod ar gael i bawb yng Nghymru. Dyma ein cenhadaeth wrth ddatblygu'r celfyddydau. Ond cenhadaeth yw hon sy'n dod o dan bwysau pan fydd adnoddau'n prinhaus.

Ar ôl 2000, bu dros ddegawd o fuddsoddiad parhaus yn ein bywyd diwylliannol, a hynny drwy gyllid cyhoeddus ac arian y Loteri. Fodd bynnag, mae'r pum mlynedd o doriadau a ddilynodd hynny wedi golygu bod gwerth y cynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru yn y 1990au a'r 2000au wedi diflannu. Mae gwerth cyfun y cymorth grant ac arian y Loteri Genedlaethol yn werth llai heddiw nag oedd 21 mlynedd yn ôl.

Os yw'r celfyddydau yng Nghymru i oroesi, ac yn fwy na hynny, i ffynnu, bydd angen arweinyddiaeth gref, entrepreneuriaidd. O'r herwydd, rydym yn gweithio gydag artistiaid a sefydliadau i'w galluogi i fod yn greadigol ac arloesol, gan sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r buddsoddiad cyhoeddus y maent yn ei gael.

Dyna pam inni lansio ein rhaglen newydd, *Gwynnwch*, yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi

cymorth wedi'i dargedu i rai o sefydliadau celfyddydol pwysicaf Cymru.

Mae sefydliad gwydn yn un sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, ac mae'n mabwysiadu model busnes sy'n gallu gwrthsefyll newid, boed y newid hwnnw wedi'i gynllunio neu'n annisgwyl. Mae sefydliad gwydn yn sefydliad a chanddo'r sgiliau, y capasiti a'r dyfalbarhad i oroesi yn y tymor hwy.

Mae'r nodweddion sefydliadol hyn yn perthyn cymaint i Gyngor y Celfyddydau ag y maent i'r rheini rydym yn eu noddi. Mae'n bwysig iawn ein bod yn dangos bod yr un ddisgyblaeth yn berthnasol i ni â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Gan hynny, aethom ati yn 2016/17 i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'n costau a'n strwythur staffio, gan leihau'r naill a'r llall fel y gallwn fuddsoddi mwy o gyllid yn uniongyrchol yn y celfyddydau.

Mae'r pwysau ar gyllid cyhoeddus yn parhau. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y bu inni ymateb i'r her hon yn ystod 2016/17. Rydym yn esbonio'r hyn rydym wedi'i wneud ac yn dangos rhai o'n llwyddiannau. Ond rydym hefyd yn nodi'r nifer bychan o feysydd hynny lle na chyrrhaeddwyd y targedau yr oeddem wedi gobeithio'u cyflawni.

Yn bwysicach na dim, rydym yn tynnu sylw at rywfaint o'r gweithgareddau hynod y mae pobl ledled Cymru wedi gallu eu mwynhau dros y flwyddyn. Ar eu gorau – ac am y gorau yr anelwn – mae'r celfyddydau yn cyffroi, yn ysbrydoli ac yn diddanu. Creu celfyddydau cryfach, a sicrhau eu bod yn effeithio ar fywydau pobl ym mhob rhan o Gymru – dyna'r amcanion sy'n sail i'n gwaith.

Nick Capaldi
Prif Weithredwr



Betsan Llwyd yn perfformio Croesi Traeth gan Ddawns i Bawb Llyn gan Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Ein Blaenoriaethau

Mae ein blaenoriaethau'n cael eu disgrifio drwy 8 o amcanion corfforaethol

Llywodraeth Cymru yw prif noddwr gweithgareddau Cyngor y Celfyddydau. Mae ein strategaeth felly yn adlewyrchu gweledigaeth ac uchelgais ehangach y Llywodraeth.

Creu

- 1 Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu
- 2 Cynyddu gwerth y gweithio rhyngwladol yn y celfyddydau – yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn economaidd

Cyrraedd


- 3 Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd er mwyn i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau
- 4 Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc


Cynnal

- 5 Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd
- 6 Amddiffyn a thyfu'r sail economaidd ar gyfer celfyddydau Cymru
- 7 Arddangos gwerth y celfyddydau
- 8 Gwneud Cyngor y Celfyddydau yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol

Mae'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gennym wedi'i nodi mewn Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn disgrifio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Caiff y rhain eu rhoi ar waith drwy amcanion corfforaethol y Cyngor.

Mae ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2016/17 yn pennu deg maes sy'n flaenoriaeth.





Gwneud y celfyddydau yn rhan ganolog o fywyd a llesiant pobl Cymru.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Tre Cwm, CALL Llandudno, *Creu Cymunedau Cyfoes*. Artist: Owen Griffiths

Budd i'r cyhoedd

Mae'r datganiad sy'n amlinellu ein cenhadaeth yn sicrhau bod y budd i'r cyhoedd yn amlwg ym mhob agwedd ar ein gwaith. Mae ein hymrwymiad i ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn cryfhau hyn. Wrth bennu ein hamcanion ac wrth gynllunio ein gwaith, mae aelodau'r Cyngor hefyd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ynghylch budd i'r cyhoedd.

Cefndir Cyngor Celfyddydau Cymru

Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994 a'i nod yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru. Mae'n gwneud hyn er budd pobl ledled Cymru ac er mwyn cefnogi celfyddydau Cymru yn rhyngwladol.

Rydym hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn ddsbarthwr arian y Loteri Genedlaethol ac yn elusen gofrestrdig (rhif 1034245).

Mae ein Siarter Frenhinol yn disgrifio ein hamcanion. Dyma'r amcanion:

- datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u hymarfer;
- cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;
- gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- cydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill Cymru, a Chynghorau Celfyddydau eraill y Deyrnas Unedig, i gyflawni'r amcanion hyn.

Mae copi o'n Siarter Frenhinol i'w gael ar ein [gwefan](#).

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn dyrannu arian y trethdalwr er budd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae sawl diben cyhoeddus ynghlwm wrth y cyllid rydym yn ei ddsbarthu:

- mae'n cynyddu'r dewis o weithgarwch y gellir ei fwynhau a'i brofi yng Nghymru
- mae'n lleihau costau'r celfyddydau i gynulleidfaoedd a'r rheini sy'n cymryd rhan
- mae'n annog arloesi a chymryd risgiau, gan wella ansawdd y celfyddydau a wneir ac a hyrwyddir yng Nghymru

Mae cyllid cyhoeddus hefyd yn gymorth i roi sylw i fethiant yn y farchnad – gan fuddsoddi yn y gweithgareddau hynny nad yw'r sector masnachol am eu cefnogi neu'n gallu eu cefnogi. Ym mhob ffordd, nod ein cyllid yw annog y gorau o'r celfyddydau a galluogi cynifer o bobl â phosibl i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.

Rydym yn gwneud gwaith ymchwil manwl bob blwyddyn er mwyn asesu i ba raddau yr ydym yn cyflawni'r amcanion hyn. Yn y tudalennau sy'n dilyn, rydym yn dangos prif uchafbwyntiau ein gwaith a'r budd cyhoeddus sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn.

1,367


o geisiadau am arian a broseswyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2016/17

Ein perfformiad yn gyffredinol

Blwyddyn o berfformiad cryf yn erbyn ein hamcanion corfforaethol

Roedd 49 o dasgau corfforaethol yn ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2016/17, pob un â'i thargedau ei hun. Caiff cynnydd ei fonitro gydol y flwyddyn drwy adroddiadau cynnydd chwarterol a gyflwynir i'r Cyngor.

Yn gyffredinol, croesawodd y Cyngor y ffaith bod y mwyafrif o'n tasgau yn 2016/17 wedi'u cwblhau'n llwyddiannus. Ar ddiwedd y flwyddyn:



Os nad oedd tasgau wedi'u cwblhau, y rheswm yn y rhan fwyaf o'r achosion oedd y gwahaniaeth o ran amseru rhwng diwedd y flwyddyn a chwblhau'r targed. Nid oedd y canlyniad, felly, yn berthnasol. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi dweud mewn adroddiadau blaenorol y gallai lleihau nifer y staff bob blwyddyn effeithio ar ein gallu i gyflawni'r rhaglen waith y cytunodd y Cyngor arni. Roedd tystiolaeth yn ystod 2016/17 bod pwysau ar adnoddau yn dechrau effeithio ar rai elfennau o'n perfformiad.

Mae'r Cyngor yn nodi na chyrrhaeddwyd ein targedau mewn 6 maes. Y rhain oedd

- **cynyddu amrywiaeth ymhlith y rheini sy'n cymryd rhan mewn prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r Loteri** – mae tystiolaeth anecdotaidd ac asesiadau anffurfiol yn awgrymu ein bod yn cael rhywfaint o lwyddiant wrth ehangu amrediad y bobl sy'n cymryd rhan yn y gweithgarwch sy'n cael ei ariannu gan y Loteri. Nid ydym fodd bynnag, wedi gallu gwneud ymchwil digon manwl i gael data sylfaenol,

cychwynnol ynghylch hyn. Mae salwch hirdymor yn ein tîm ymchwil wedi golygu nad ydym wedi gallu bwrw ymlaen â'r darn hwn o waith a byddwn yn dychwelyd ato yn 2017/18

- **data am y rheini o grwpiau sydd â "nodweddion gwarchoddedig" sy'n cymryd rhan ac yr ydym yn ymwneud â hwy** – rydym yn gosod targedau uchelgeisiol yn ein cynlluniau gweithredu (Cydraddoldebau, y Gymraeg a Chynaliadwyedd). Er inni gyrraedd y rhan fwyaf o'r targedau, ni chafwyd y cynnydd yr oeddem wedi gobeithio'i weld wrth ymwneud â phobl o grwpiau sydd â 'nodweddion gwarchoddedig'. Gan nad oedd gennym dystiolaeth o ddarlun mwy cyflawn o'r hyn a gyflawnwyd, daeth y Cyngor i'r casgliad nad oedd y cynnydd cyffredinol yn foddhaol. Bydd mynd i'r afael â hyn yn flaenoriaeth yn ystod 2017/18
- **Sbardun** – roedd rownd arall o'r rhaglen Sbardun, sef ein rhaglen hyfforddiant yn y celfyddydau sy'n targedu pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn ddibynnol ar ddod o hyd i gyllid cyfatebol ar gyfer cais am gyllid Ewropeaidd. Roedd blaenoriaethau eraill yn golygu nad oedd modd inni fwrw ymlaen â hyn
- **Cyllid Ewropeaidd ar gyfer prosiectau trawsgenedlaethol** – roeddem yn aflwyddiannus gyda dau gais am gyllid Ewropeaidd. Rydym yn ailwerthuso ein dull o weithio yn hyn o beth ar gyfer 2017/18
- **recriwtio Ymgynghorwyr Cenedlaethol** – mae ein hymgyngorwyr gwirfoddol yn ein cynorthwyo i weld, asesu ac adrodd ar y celfyddydau ledled Cymru. Er gwaethaf nifer o ymgyrchoedd recriwtio, cawsom drafferth i ddod o hyd i unigolion a chanddynt y cymwysterau priodol ym mhob rhan o Gymru (yn arbennig felly siaradwyr

Cymraeg). Bydd y gwaith recriwtio'n parhau yn 2017/18

- ymdrechion i leihau lefelau absenoldeb a salwch staff – mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau lefelau absenoldeb a salwch staff. Roedd y Cyngor yn siomedig felly o weld mai 798 o ddyddiau (3.67% o'r dyddiau gwaith) oedd lefel absenoldeb a salwch. Mae hyn yn gynydd o 1.06% ar ffigur y flwyddyn flaenorol, er bod 1.84% yn gysylltiedig ag absenoldeb hirdymor. Gwneir mwy o ymdrech yn 2017/18 i reoli absenoldeb ac i gynnal llesiant y staff

Fe gyflawnwyd y tu hwnt i'r disgwyl mewn nifer o feysydd:

- mae'r Rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* bellach wedi hen ennill ei phlwyf. Rydym yn gwneud yn well na'r disgwyl, gyda bron i draean ysgolion Cymru bellach yn cymryd rhan yn y rhaglen
- bu modd inni wneud mwy i *annog teuluoedd i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau* – rhagorodd ein hymgyrch Celfyddydau i'r Teulu ar ei tharged ar gyfer digwyddiadau i'r teulu
- rydym wedi'i gwneud hi'n haws i *bobl anabl drwy Gymru fynychu'r celfyddydau* – mae ein cynllun tocynnau *Hynt* i bobl anabl wedi tyfu'n sylweddol ers ei lansio ddwy flynedd yn ôl, ac mae ganddo bellach 7,500 o aelodau a 39 o leoliadau perthnasol.
- roedd y prosiect a ariannwyd gennym i *ddathlu canmlwyddiant Roald Dahl yn llwyddiant mawr* – roedd un o brosiectau y 'blynyddoedd thematig', *City of the Unexpected*, yn ddigwyddiad anferth a ddenodd sylw yn fyd-eang. Bu 5,000 o wirfoddolwyr ynghyd â thîm mawr o artistiaid proffesiynol dawnus yn rhan o berfformiad dawnus, acrobateg, theatr a cherddoriaeth. Amcangyfrifir bod 200,000 o

bobl wedi bod ar strydoedd Caerdydd dros y digwyddiad deuddydd

- arweiniodd ein *partneriaethau darlledu* gyda BBC Cymru Wales ac S4C at gyfleoedd newydd i ddatblygu a hybu talent creadigol yng Nghymru. Mae gwaith i werthuso prosiect *Gorwelion/ Horizon* y BBC / Cyngor y Celfyddydau wedi cadarnhau'r cyfraniad y mae wedi'i wneud i hyrwyddo talent gerddorol sy'n datblygu
- *cawsom adborth ardderchog* am ein Pecyn Cymorth Dadleuaeth, sef ein hadnodd gwybodaeth i awdurdodau lleol sy'n bartneriaid inni. Yn wyneb pwysau ariannol parhaus, mae'r astudiaethau achos, ein ffeithiau a'n ffigurau wedi bod yn gymorth i gyfiawnhau gwasanaethau celfyddydol
- rhagorwyd ar waith blaenorol ein *Cynllun Casglu*, gan godi bron i £1 miliwn drwy werthu *gwaith artistiaid*

1,177

o fenthyciadau o'r Cynllun
Casglu yn 2016/17 a
chyfanswm eu gwerth yw

£1,021,171

Uchafbwyntiau perfformiad yn erbyn yr amcanion allweddol

Amcan

Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu

Llythyr cylch gwaith: 2, 3, 8

Cynnydd yn ystod 2016/17

Rydym eisiau i'r celfyddydau yng Nghymru gael effaith gadarnhaol, gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn gallu creu eu gwaith gorau a chynnal eu hunain drwy ansawdd eu gweithgareddau.

Lefelau mynychu digwyddiadau sy'n cael eu hyrwyddo gan sefydliadau portffolio oedd 4.2m, sydd 375,000 yn uwch na'r targed. Roedd lefelau ymgyfranogi o 1.1m yn 103,000 yn uwch na'r targed.

Yn ystod y flwyddyn lansiodd y rhaglen "Gwynwch", a honno wedi'i chynllunio i ddatblygu gallu ein sefydliadau portffolio er mwyn iddynt fod yn llai dibynnol ar gyllid cyhoeddus. Mae 54 o aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru wedi cael eu derbyn ar y rhaglen.

Mae ein buddsoddiad cyfalaf mewn lleoliadau'n gwneud cyfraniad sylweddol at wella'r seilwaith diwylliannol ledled Cymru. Agorodd Oriol Glynn Vivian yn Abertawe yn hydref 2016 ar ôl gwaith adnewyddu sylweddol, gan ddenu cryn glod.

Yn rhan o'n prosesau monitro ansawdd, rydym yn recriwtio Ymgynghorwyr Cenedlaethol i wyluo ac asesu'r gwaith a gyllidwn. Golygodd y diffyg ymgynghorwyr â'r sgiliau priodol ym mhob rhan o Gymru na fu inni gyrraedd ein targed yn y maes hwn. Bydd rhoi sylw i hyn yn flaenoriaeth yn 2017/18.

Cynyddu gwerth y gweithio rhyngwladol yn y celfyddydau – yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn economaidd

Llythyr cylch gwaith: 5, 6, 8

Rydym eisiau i'n prif artistiaid a sefydliadau celfyddydol wireddu eu huchelgeisiau rhyngwladol drwy ymchwilio i farchnadoedd rhyngwladol newydd a chysylltu â phartneriaid newydd.

Aeth artistiaid o Gymru i arddangosfeydd/ffeiriau masnach amrywiol, gan gynnwys South by South West, WOMEX, Canadian Music Week, Celtic Connections a Gŵyl Lorient.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Prydeinig, lansiodd cynllun cyllido newydd, sef India:Cymru, gan gefnogi 12 o brosiectau sy'n cysylltu artistiaid a sefydliadau yng Nghymru ac India drwy gydweithio creadigol.

Amcan

Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd er mwyn i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau

Llythyr cylch gwaith: 1, 2, 4, 7, 10

Cynnydd yn ystod 2016/17

Yng ngwanwyn 2017, trefnwyd dirprwyaeth ddiwylliannol fel rhan o daith fasnach ehangach Llywodraeth Cymru i Tsieina. Cryfhaodd yr ymweliad ein cysylltiadau rhyngwladol gan agor cyfleoedd newydd yn y farchnad i sefydliadau celfyddydol o Gymru.

Mae Brexit yn creu ansicrwydd ynghylch sut y bydd rhai elfennau o'n gwaith rhyngwladol yn gweithio yn y dyfodol. Serch hynny, rydym yn ymwneud yn llawn â'r trafodaethau presennol ynghylch perthynas Cymru ag Ewrop. Rydym yn parhau i eirioli dros bwysigrwydd creu cyfleoedd newydd yn y farchnad ar gyfer y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod cyllid y Cyngor yn hygyrch ac o fudd i holl ddinasyddion Cymru. A ninnau'n gorff a gyllidir gan y cyhoedd, mae sicrhau rhagor o fynediad i'r celfyddydau yn flaenoriaeth naturiol.

Rydym yn llwyr ymroddedig i ddymchwel y rhwystrau sy'n atal a llesteirio pobl rhag mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Rydym yn arbennig o awyddus i ddenu'r rheini o gymunedau dan anfantais economaidd, ac mae gwaith ein harolygon yn ystod 2016/17 yn dangos bod y bwlch wrth fynychu a chyfranogi rhwng y mwyaf a'r lleiaf cefnog yng nghymdeithas Cymru yn lleihau.

Bu inni fethu â chyrraedd ein targed ar gyfer digwyddiadau cymunedol *Noson Allan* o drwch blewyn, gan sicrhau 513 o berfformiadau (yn erbyn targed o 530).

Mae gennym gynlluniau gweithredu manwl ar gyfer y Cydraddoldebau, y Gymraeg a Datblygu Cynaliadwy. Rydym yn cyhoeddi adroddiadau penodol am ein perfformiad ym mhob un o'r meysydd hyn. Cawsom lwyddiant sylweddol wrth inni weithio i roi Safonau newydd y Gymraeg ar waith, ac rydym wedi integreiddio Datblygu Cynaliadwy yn y broses o greu ein holl bolisiâu. Roeddem yn llai bodlon â'r cynnydd gyda'n gwaith ar Gydraddoldebau. (Trafodir hyn yn fanylach ar dudalen 33.)

Amcan

Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifanc

Llythyr cylch gwaith: 2, 3

Annog arloesi, gwytnwch a chynaliadwyedd

Llythyr cylch gwaith: 5, 6, 9

Amddiffyn a thyfu'r sail economaidd ar gyfer celfyddydau Cymru

Llythyr cylch gwaith: 5, 6, 8, 9

Cynnydd yn ystod 2016/17

Rydym eisiau i'r holl bobl ifanc gael cyfle i fwynhau celfyddydau o ansawdd da a datblygu eu doniau eu hunain. Ein blaenoriaeth allweddol yn 2016/17 oedd cydweithio â Llywodraeth Cymru i sefydlu ein prosiect partneriaeth mawr, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*.

Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gyflawni y tu hwnt i'n targedau yn y rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol, gyda rhagor o weithgarwch yn mynd rhagddo mewn dros draean o ysgolion Cymru. Lanswyd cronfa newydd gennym hefyd, sef Profi'r Celfyddydau, sy'n helpu ysgolion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o alluogi plant a phobl ifanc i ymweld â sefydliadau celfyddydol proffesiynol.

Bydd gwytnwch yn allweddol i oroesiad sefydliadau celfyddydol yn y dyfodol. Rydym eisiau llunio strategaeth i Gyngor y Celfyddydau, a'r celfyddydau yng Nghymru, sy'n hybu arloesedd ac entrepreneuriaeth ac sy'n caniatáu i waith ein hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol fod yn fwy gwydn a chynaliadwy.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn datblygu rhaglen i helpu ein prif sefydliadau ddatblygu eu busnes. Y nod yw gwella eu gallu busnes fel eu bod yn llai dibynnol ar gyllid cyhoeddus.

Mae hon yn adeg heriol i gyllido cyhoeddus. Rydym yn annog sefydliadau i fod yn entrepreneuriaidd, gan greu rhagor o incwm pan fydd modd gwneud hynny. Nid yw hyn mor hawdd i lawer o'r partneriaid sy'n gweithio gyda ni i hybu'r celfyddydau. Mae awdurdodau lleol yn enwedig – ein partneriaid traddodiadol wrth gyllido a datblygu'r celfyddydau – yn wynebu anawsterau cynyddol wrth gynnal y lefelau cyllido presennol.

Blaenoriaeth yn ystod 2016/17 oedd gweithio gydag awdurdodau lleol i ddod o hyd i atebion mwy cynaliadwy sy'n rhoi sylw i anghenion lleol ac yn diogelu gwasanaethau i gymunedau yn eu hardaloedd lleol. Rydym hefyd yn treialu modelau newydd ar gyfer ymgysylltu a buddsoddi cymunedol drwy ein rhaglen *Creu Cymunedau Cyfoes*, gan dreialu 7 prosiect mawr ledled Cymru.

Amcan

Cynnydd yn ystod 2016/17

Ar nodyn mwy positif, llwyddodd ein *Cynllun Casglu* i greu dros £1m i artistiaid unigol drwy werthu eu gweithiau. Mae artistiaid yn aml ymhlith y gweithwyr creadigol proffesiynol sy'n cael eu talu leiaf – mae'r incwm hwn felly'n hanfodol i'w bywoliaeth.

Arddangos gwerth y
celfyddydau

Llythyr cylch gwaith: 1-7, 10

Rydym eisiau hyrwyddo'r syniad bod y celfyddydau yng Nghymru'n gadarnhaol ac yn berthnasol i bawb, gan sicrhau bod y sector celfyddydol a'r cyhoedd yn ehangach yng Nghymru yn deall yr hyn yr ydym ni, Cyngor y Celfyddydau, yn ceisio'i gyflawni.

Rydym yn rheoli raglen ymchwil sy'n ein cynorthwyo i fod yn fwy gwybodus am y celfyddydau yng Nghymru. Yn 2016/17, aethom ati i gyhoeddi 2 Adroddiad Omnibws, Arolwg o Wariant Awdurdodau Lleol, a'n Harolwg o Bortffolio Celfyddydol Cymru.

Mae ein cylchlythyrau electronig chwarterol a thrydariadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am y celfyddydau yng Nghymru. Rydym hefyd yn trefnu ein cynadleddau, ein symposia a'n digwyddiadau ein hunain, ac mae gennym bresenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol eraill (megis yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd).

Gwneud Cyngor y Celfyddydau
yn gorff cyhoeddus effeithlon ac
effeithiol

Llythyr cylch gwaith: 1-9

A ninnau'n gorff cyhoeddus mae cyfrifoldeb arnom i greu sefydliad cadarn a hyderus, a hwnnw'n darparu gwasanaethau perthnasol a defnyddiol. Rydym yn darparu gwasanaethau proffesiynol mewn ystod o ddisgyblaethau. Gwnawn hynny mewn ffyrdd sy'n lleihau costau ac yn cydnabod ein cyfrifoldeb i fod yn sefydliad mwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

Gwneir trafodion ariannol a thaliadau i gyflenwyr yn brydlon. Yn 2016/17, llwyddwyd i gyflawni y tu hwnt i'n targedau gan dalu 96% o'n hanfonebau yn unol â thelerau'r cyflenwyr (targed o 93%). Talwyd 85% o fewn 10 diwrnod (targed o 85%).

Rydym yn ymdrin yn effeithlon â chwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Cafwyd 19 cais Rhyddid Gwybodaeth eleni. Cafodd pob un sylw llawn, a hynny o fewn yr amserlen ofynnol.



78.1%
o oedolion Cymru a
fynychodd y celfyddydau
o leiaf unwaith y flwyddyn
neu'n amlach

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2016

Penwythnos agoriadol Oriel Gelf Glynn Vivian
(llun: Phil Rees, hawlfraint Cyngor Dinas a Sir Abertawe)

Creu Gwytnwch



John Williams
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cyfalaf

Cryfhau seilwaith y celfyddydau

Ers dros ddau ddegawd mae Cyngor y Celfyddydau wedi bod yn buddsoddi cyllid y Loteri Genedlaethol mewn prosiectau cyfalaf. Drwy Gymru, rydym yn helpu sefydliadau i ehangu eu gweithgareddau drwy greu'r adeiladau iawn a'r amgylchedd iawn iddynt allu cyflawni eu gwaith. Mae'r prosiectau rydym yn buddsoddi ynddynt yn helpu sefydliadau i fod yn fwy cynaliadwy ac arloesol, gan allu creu, cyflwyno ac arddangos eu gwaith yn yr amgylchiadau gorau posibl.

Ein blaenoriaeth yw helpu'r sefydliadau celfyddydol hynny sy'n gwneud cyfraniad o bwys at fywyd diwylliannol Cymru i atgyfnerthu a gwella. Yn ystod y flwyddyn, roeddem felly yn falch o weld mor ysblennydd oedd Amgueddfa ac Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe wrth iddi agor ar ei newydd wedd.

Cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu cynaliadwy a disgwyliwn i brosiectau, cyn belled ag y bo modd, roi sylw i'r holl fanteision a'r costau hirdymor – yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Disgwyliwn i'r sefydliadau sy'n cael eu noddi gennym goleddu'r egwyddorion a geir yn neddfwriaeth llesiant Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod cynaliadwyedd yn ganolog i'w cynlluniau datblygu.

Os yw'r celfyddydau i ffynnu, mae angen cyfleusterau o ansawdd da ar artistiaid, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr, a hynny er mwyn iddynt allu creu, mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Mae gan Gyngor y Celfyddydau hanes da o fuddsoddi mewn prosiectau pensaerndol trawiadol sydd wedi dod yn ganolfannau creadigol, cymdeithasol ac economaidd o bwys yn eu hardaloedd lleol.

Sicrhau gwerth am arian

Nid ydym byth yn ariannu holl gostau prosiect penodol. Mewn sawl achos, byddwn yn ariannu cyfran o brosiectau cyfalaf ond nid ni fydd y noddwr mwyaf, a disgwyliwn i'r rheini sy'n cael cymorth gennym ddod o hyd i arian o ffynonellau eraill.

Gyda chymorth ein Pwyllgor Cyfalaf, rydym yn gweithio gyda swyddogion i sicrhau bod y prosiectau rydym yn eu noddi yn addas i'w diben ac yn hyfyw yn ariannol. Gall prosiectau cyfalaf yn aml fod yn gymhleth, ac maent yn datblygu dros gyfnod o flynyddoedd. Mae ein prosesau trylwyr ar gyfer dichonolrwydd, dylunio, caffael ac adeiladu yn sicrhau bod prosiectau wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u seilio ar syniadau da.

Y prif risgiau ac ansicrwydd



Lesley Hodgson
Cadeirydd, Y Pwyllgor
Archwilio a Sicrhau Risg

Rheoli ein busnes yn effeithiol

Fel pobl sy'n stiwardio cyllid cyhoeddus, rhaid inni weithredu mewn ffordd effeithlon ac atebol. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ein blaenoriaethau a'n cyllid a hynny yn unol â'r polisiau sy'n berthnasol i'r modd y defnyddiwn gyllid cyhoeddus. Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw gofalu ein bod yn cyflawni'r ymrwymadau hyn, gan wneud hynny mewn ffyrdd sy'n dryloyw, yn atebol ac yn cynrychioli gwerth am arian. Mae rhaglen helaeth ar gyfer archwilio mewnol yn ein helpu gyda'r gwaith hwn.

Diogelu arian y cyhoedd

Rhan bwysig o waith y Pwyllgor fu adolygu'r modd yr ydym yn ein hamddiffyn ein hunain rhag twyll a seiberdroseddu. Mae ymdrechion i geisio cael gafael ar ein cyllid ac i dorri i mewn i'n systemau TGCh yn digwydd yn feunyddiol, bron. Mae'r Cyngor yn credu bod y materion hyn yn rhai difrifol iawn ac mae'r Pwyllgor wedi bod yn edrych yn ofalus ar ein polisiau a'n prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn ddiogel.

Cymryd risgiau: dull cytbwys

Dim ond un o blith nifer o risgiau posibl a allai danseilio ein perfformiad yw cael mynediad heb awdurdod i'n systemau. Ond rhaid inni beidio ag ofni risg i'r fath raddau nes ein bod yn anwybyddu

cyfleoedd pwysig i arloesi a thyfu. Rydym yn ceisio cymryd risgiau priodol ond ar sail wybodus, yn unol â'r amgylchiadau ar y pryd. Serch hynny, ni wnawn ddim yn fyrbwyll; ni wariwn arian y cyhoedd yn wastraffus na pheryglu ein henw da am fod yn ddarbodus ychwaith.

Mae gennym felly systemau ar gyfer rheolaeth fewnol gyda'r amcan o nodi a blaenoriaethu'r risgiau a allai ein hatal rhag cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor. Mae'r systemau hyn yn gwerthuso pa mor debygol yw risgiau o gael eu gwireddu, ac maent yn ystyried yr effaith pe bai hynny'n digwydd, gan geisio eu rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Rydym yn ceisio gwella ein systemau ar gyfer rheolaeth fewnol o hyd. Defnyddir ein Fframwaith o Sicrwydd Corfforaethol i ganfod pa mor gadarn yw'r systemau ar gyfer rheoli a'r prosesau sicrwydd sylfaenol. Tynnir sylw at unrhyw elfennau y mae angen eu cryfhau ac mae'r Pwyllgor yn monitro'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod pethau'n gwella.

Risg ariannol a rheoli cyfalaf

Mae'r Cyngor yn defnyddio offerynnau ariannol yn bennaf i gyllido ei waith, er enghraifft, dyledwyr a chredydwyr masnachol a balansau arian sy'n deillio'n uniongyrchol o'i waith. Mae'r gwaith o reoli risgiau ariannol sy'n deillio o fasnachu offerynnau ariannol, sef dyledwyr a chredydwyr masnachol yn bennaf, yn cael ei wneud drwy gyfres o bolisiau a gweithdrefnau. Rheolir y risgiau hyn fel a ganlyn:

Risg hylifedd – mae'r Cyngor yn fodlon fod ganddo adnoddau hylifedd digonol, ar ffurf arian yn y banc ac arian y cytunwyd arno ar gyfer 2017/18 i fodloni pob ymrwymiad cyfredol a gontractiwyd. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd.

Risg cyfraddau llog – cedwir balansau arian a symiau cyfwerth ag arian mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol sy'n caniatáu cael yr arian ar unrhyw adeg. Ar gyfartaledd, 0.50% oedd y gyfradd llog yn y flwyddyn (2015/16: 0.38%).

Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

Risg o arian tramor – mae newidiadau i'r cyfraddau cyfnewid yn dilyn Refferendwm yr UE y llynedd wedi arwain at ostyngiad ym mhŵer prynu'r bunt dramor. Mae'r Cyngor wedi ceisio lliniaru effeithiau codi a gostwng mewn gwerth arian, ac ar hyn o bryd nid yw'n wynebu unrhyw risgiau, i unrhyw raddau sylweddol, yn sgil y gyfnewidfa dramor.

Risg llif arian – nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llif arian.

Mae'n gwbl briodol bod y cyhoedd yn disgwyl bod y sefydliadau sy'n cael eu cyllido ganddynt yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Mae'r rheini y gweithiwn gyda hwy yn disgwyl inni gael y pethau sylfaenol yn gywir, gan sicrhau ein bod yn rheoli ein busnes yn syml ac yn drefnus. Sicrhau ein bod yn ateb yr heriau hyn yw prif waith y Pwyllgor.

Y risgiau i'n perfformiad: beth ydynt a sut yr ydym yn delio â hwy

Y prif risgiau

Llywodraethu

Rheoli gwael yn arwain at fethiant sylweddol i gyflawni'r amcanion allweddol mewn cynlluniau corfforaethol a gweithredol

Cyllido

Gallai toriadau i gyllid y sector cyhoeddus niweidio'r celfyddydau yng Nghymru

Sefydliadau celfyddydol allweddol yn methu o ganlyniad i doriadau mewn cyllid

Rheoli grantiau

Ceisiadau gwael neu dwyllodrus am gyllid yn golygu na ddefnyddir cyllid cyhoeddus at y dibenion a fwriedir

Y prif gamau lliniaru

Mae disgyblaethau sydd wedi'u diffinio'n glir yn bodoli i helpu swyddogion y Cyngor wrth iddynt gyflawni eu gwaith. Cyflwynir adroddiad cynnydd ffurfiol i'r Cyngor bob chwarter. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn sail i'r Cyfarfodydd Monitro Chwarterol rhwng tîm uwch-reoli'r Cyngor a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Unwaith eto bu'n rhaid inni leihau lefel y cyllid i'n portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw, sef Portffolio Celfyddydol Cymru. Rydym hefyd wedi gorfod arbed rhagor o arian o ran ein costau gweithredu ein hunain. Mae hyn yn gymorth i sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl ar gael i'w wario'n uniongyrchol ar y celfyddydau.

Maes sy'n risg o bwys yw'r gostyngiadau parhaus yng nghyllid awdurdodau lleol ar gyfer y celfyddydau. Rydym yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid inni er mwyn edrych ar strategaethau gwahanol i ddiogelu'r arian sydd ar gael ar gyfer gweithgarwch creadigol.

Mae'r rhan fwyaf o'n cymorth grant yn mynd tuag at Bortffolio Celfyddydol Cymru. Mae swyddogion yn monitro effeithiolrwydd artistig, ariannol a gweithrediadol y Portffolio. Mae adroddiadau rheolaidd ar gael sy'n dangos asesiad risg pob un o'r sefydliadau sy'n cael eu cyllido'n flynyddol, ac mae'r rhain yn cael rhoi i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac i'r Cyngor. Pan fydd angen, rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i weithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau sy'n cael anawsterau, a rhoddwn o'n hamser a'n hegni i'w cynorthwyo i ddatrys materion sy'n peri pryder.

Defnyddiwn ddull seiliedig ar risg i asesu'r ceisiadau ac i fonitro'r grantiau a ddyfernir. Defnyddiwn wybodaeth, a gasglwyd oddi wrth y rhai sy'n derbyn grantiau, yn rhan o'n gweithdrefnau monitro er mwyn sicrhau y cyflawnir y canlyniadau datganedig y rhesom gyllid ar eu cyfer.

Y prif risgiau

Prosiectau o bwys

Llywodraeth Cymru yn colli hyder yn y modd yr ydym yn rheoli ein rhaglen *Dysgu Creadigol*

Rheolaeth wael o brosiectau Cyfalaf Loteri allweddol yn achosi oedi, a hynny'n creu beichiau cyllidol ychwanegol i Gyngor y Celfyddydau

TG

Toriadau anrhagweledig neu annisgwyl i'r cyflenwad trydan yn peryglu parhad di-dor y busnes

Mae ein system diogelwch TG yn cael ei thanseilio.

Data Personol

Caiff data personol eu colli, eu peryglu neu eu dwyn

Staffio

Pwysau cyson i dorri costau'n lleihau capasiti'r staff i lefel annerbyniol

Y prif gamau lliniaru

Mae'r Cyngor yn rhoi sylw o ddifrif i dwyll, llygredigaeth a chamweinyddu, ac mae ganddo bolisiâu i'w hatal rhag digwydd ac i ymdrin â hwy, gan gynnwys polisiâu 'chwythu'r chwiban' a gwrth-dwyll. Adolygwyd y rhain yn ystod y flwyddyn.

Prosiect partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru yw Dysgu Creadigol, sy'n buddsoddi cyfanswm o £20 miliwn dros 5 mlynedd. Adolygwyd y gwaith o reoli'r prosiect gan archwilwyr mewnol y Cyngor a rhoddwyd sicrwydd 'sylweddol'.

Mae gennym brosesau manwl ar gyfer monitro prosiectau a rhyddhau taliadau. Mae gennym gytundebau ar ffurf contractau sy'n diogelu buddsoddiad y Cyngor a thelir cyllid yn erbyn hawliadau ardystiedig am waith a gwblhawyd. Mae aseswyr annibynnol arbenigol yn rhoi adroddiadau technegol a ddefnyddir i frifio'r Pwyllgor Cyfalaf (a'r Cyngor yn y pen draw).

Mae cynllun argyfwng llawn yn ei le ac fe'i profir yn flynyddol. Mae cyfleusterau TG amgen i ffwrdd o'r safle ar gael os bydd digwyddiad.

Cynhelir profion seiberddiogelwch a hacio TG yn flynyddol. Rydym yn cydymffurfio â safonau diogelwch IASME.

Mae gan y cyngor ddulliau rheoli a pholisiâu i sicrhau bod data'n ddiogel. Mae systemau TGCh a amgryptiwyd yn sicrhau y rheolir diogelwch corfforol data yn ofalus iawn.

Mae cyflenwi rhaglen o weithgarwch sy'n ehangu gyda llai o staff yn bryder parhaus a rheolaidd i'r Cyngor. Caiff y cynnydd a wneir i gyflawni cynlluniau ei fonitro'n ofalus a'i adolygu ar sail chwarterol, a gwneir pob ymdrech i roi arferion busnes effeithlon ar waith.

Y prif risgiau

Nid yw'r Adolygiad Sefydliadol yn arwain at yr arbedion angenrheidiol o ran costau.

Y Gymraeg

Ni chaiff Safonau newydd y Gymraeg eu cyflwyno yn unol â'r dyddiadau a nodir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio

Y prif gamau lliniaru

Mae cynigion y cytunodd y Cyngor arnynt yn arwain at yr arbedion angenrheidiol. Bydd y Cyngor yn craffu ar sut y caiff y cynigion hyn eu rhoi ar waith yn ystod 2017/18 er mwyn sicrhau bod arbedion yn cael eu gwneud.

Mae gan y Cyngor agwedd flaengar at Fesur y Gymraeg.

Rydym wedi gallu rhoi'r holl Safonau a oedd i'w cyflwyno yn ystod 2016/17 ar waith, ac rydym yn hyderus y byddwn yn gallu rhoi'r holl Safonau sy'n weddill ar waith yn llawn yn 2018.



Anweledig, Ffion Dafis, Cwmni'r Frân Wen
(llun: Kristina Banholzer)

Adolygiad ariannol a busnes

Mae gan y Cyngor ddwy brif ffynhonnell o ran cyllid: cymorth grant gan Lywodraeth Cymru; ac, a ninnau'n un o'r cyrff sy'n dosbarthu arian at achosion da, cyfran o elw'r Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau dosbarthu arian loteri.

Polisiâu rhoi grantiau

Mae'r Cyngor yn gwahodd ceisiadau am grantiau rheolaidd a grantiau untro gan sefydliadau ac unigolion, ac mae'n monitro'r defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny. Yn ogystal â bodloni amcanion strategol y Cyngor, rhaid i geisiadau ddangos y budd i bobl Cymru yn yr holl sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd. Rhoddir grantiau rheolaidd drwy gymorth grant yn unig ond gellir rhoi grantiau untro drwy gymorth grant neu incwm y Loteri. O dan delerau Cyfarwyddiadau Polisi'r Loteri, mae'r Cyngor yn rhoi grantiau ar gyfer prosiectau cyfalaf a phrosiectau eraill o dan gynlluniau refeniw sy'n ymwneud â'r celfyddydau yng Nghymru.

Rhoddir grantiau rheolaidd, neu grantiau refeniw blynyddol, i bortffolio o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau artistig o safon. Mae ystyried unrhyw sefydliad ar gyfer y fath statws yn dibynnu ar argaeledd arian, cynaliadwyedd y sefydliad, a'r ffaith ei fod yn cydweddu'n gryf â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Ar hyn o bryd, rydym yn creu cytundeb cyllido gyda phob sefydliad sy'n cael arian refeniw, a hynny am gyfnod o rhwng blwyddyn a thair blynedd. Mae'r cytundeb hwn yn nodi lefel y cyllid disgwylidiedig, y rhaglen o weithgarwch sydd i'w rhoi ar waith, y gofynion ar gyfer monitro ac adolygu blynyddol, amodau safonol y grant, ac unrhyw amodau ychwanegol.

Mae grantiau cyfalaf y Loteri, i sefydliadau yn unig, yn cynorthwyo i brynu, gwella, adfer, adeiladu neu greu ased a gaiff ei ddefnyddio er budd y cyhoedd i ddatblygu gwaith y sefydliad.

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo ei waith o roi grantiau mewn nifer o feysydd strategol i Ffilm Cymru Wales, Nesta, BBC Cymru Wales, Llenyddiaeth

Cymru a Thŷ Cerdd. Nodir telerau'r dirprwyo allanol hwn mewn cytundebau ffurfiol, ac mae'r rheini'n bodloni amodau Datganiad o Ofynion Ariannol y Cyngor.

Ni newidir rhwymedigaethau Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor gan y dirprwyo hwn. Serch hynny, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn fodlon bod y sefydliadau a'u systemau yn addas i gyflawni'r swyddogaethau a ddirprwywyd, gan gynnwys: asesu ceisiadau am gyllid; dal, rhoi cyfrif am arian Loteri a ddyrennir iddynt gan y Cyngor at y diben hwnnw, a'i ddsbarthu; a monitro'r prosiectau a gyllidir.

Mae'r cytundebau dirprwyo yn caniatáu i archwilyr mewnol y Cyngor a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol gael mynediad priodol er mwyn adolygu'r ffordd y mae'r swyddogaethau dirprwyedig yn cael eu rhoi ar waith.

Mae grantiau untro ar gael i helpu i gyllido prosiectau artistig o ansawdd da dros gyfnod penodol o amser, gan ddewis y rheini sy'n cydfynd â blaenoriaethau cyllido'r Cyngor yn y modd gorau. Mae gwaith parhaus i fonitro ein rhaglenni cymorth grant yn ein rhybuddio am unrhyw broblemau penodol o ran risg. Mae'r risgiau a ganfyddir yn arwain at godi lefel y monitro ac, os oes angen, yn gallu arwain at beidio â thalu cyllid a/neu ohirio ei dalu.

Cyllid wrth gefn – Gweithgareddau Cyffredinol

Polisi'r Cyngor ar gyllid cyfyngedig yw cofnodi ar wahân unrhyw grantiau, rhoddion a ffynonellau eraill o incwm a dderbynnir ar gyfer diben neu brosiect penodol, neu lle y gosodir cyfyngiadau sy'n llymach nag amcanion cyffredinol y Cyngor. Defnyddiwyd yr holl adnoddau hyn a ddaeth i mewn yn y flwyddyn at y diben a fwriadwyd.

Neilltuir y rhan fwyaf o gyllid anghyfyngedig y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn unol ag amodau'r cymorth grant a roddir gan Lywodraeth Cymru. Caiff unrhyw arian dros ben ei gario ymlaen a'i ddefnyddio i hyrwyddo amcanion siartredig y Cyngor yn y flwyddyn wedyn. Nid oedd unrhyw arian dynodedig ar 31 Mawrth 2017 (2016: £Dim).

Cyfyngir ar ein gallu i ddal cyllid wrth gefn gan gyfarwyddiadau hyblygrwydd ar gyfer diwedd y mis a'r flwyddyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. O fewn y paramedrau hyn, ein polisi yw rheoli llif arian drwy dynnu arian i lawr bob mis ar gyfer y gwariant sydd wedi'i gynllunio, yn ogystal â lwfans bach ar gyfer gofynion arian tymor byr na chafodd eu rhagweld. Adolygwn y polisi a'n sefyllfa o ran cyllid wrth gefn bob blwyddyn. Ar 31 Mawrth 2017 roedd yr arian anghyfyngedig yn £1,132,000 (2016: £830,000).

Buddsoddi

Rheolir pwerau buddsoddi gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000, y Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a'r Cyfarwyddiadau Ariannol a gyflwynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Polisi'r Cyngor yw cael yr elw mwyaf posibl o fewn y telerau hyn. Cawn log ar gyfradd a negodwyd ar sail cyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, gallai cyfraddau uwch fod ar gael ar gyfer cyllid cyfyngedig ar adnau hirdymor.

Santander UK plc sy'n rhoi gwasanaeth bancio i'r Cyngor.

Rhoddir pob llog a phob incwm arall o fuddsoddiadau a enillir ar arian a balansau banc sy'n deillio o'r cyllid a gawn gan Lywodraeth Cymru i Drysorlys Ei Mawrhydi drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae balansau a gedwir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol yn aros o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Felly, er bod y Cyngor yn cael incwm o fuddsoddiadau ar ei gyfran o'r fath falansau, nid oes gan y Cyngor unrhyw bwerau buddsoddi mewn perthynas â'r Gronfa.

Dim ond

8.07%


o holl wariant Cyngor Celfyddydau
Cymru yn mynd ar ei gostau rhedeg

Talu credydwy

Mae'r Cyngor yn dilyn Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, a Chod Ymarfer Talu Gwell Llywodraeth y DU. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau cyflenwyr lle na cheir anghydfod cyn pen 30 diwrnod ar ôl cael nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyr.

Nod y Cyngor yw talu 100% o anfonebau, gan gynnwys anfonebau y cafwyd anghydfod yn eu cylch pan ddatrysir yr anghydfod, yn unol â'r

telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, talodd y Cyngor 96% (2015/16: 97%) o'r holl anfonebau yn unol â thelerau ei bolisi talu. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyngor nod pellach o dalu anfonebau cyn pen 10 diwrnod. Ar gyfer 2016/17 talwyd 85% (2015/16: 88%) o anfonebau cyn pen 10 diwrnod. Ni ragwelir y bydd ein polisi yn newid yn y blynyddoedd i ddod a byddwn yn parhau i osod targedau perfformiad heriol.



Canlyniadau ariannol – Gweithgareddau cyffredinol	2016/17 £000	2015/16 £000
<i>Mae'r cyfrifon ar gyfer Gweithgareddau Cyffredinol, heb gynnwys gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri, yn dangos:</i>		
Cyfanswm incwm ar gyfer y flwyddyn	35,728	36,214
Gwarged incwm dros wariant	631	847
Asedau cyfredol net	3,200	2,143
Cyfanswm y balansau arian ar 31 Mawrth	2,624	1,993
a		
Blaenymrwymiaidau grantiau o ran y flwyddyn wedyn	26,744	25,840
<i>Mae'r cyfrifon ar wahân ar gyfer Dosbarthu Arian y Loteri yn dangos:</i>		
Cyfran y Cyngor o'r elw oddi wrth y Loteri Genedlaethol	16,300	19,233
<i>O'u cyfuno:</i>		
Cyfanswm yr incwm ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a gweithgareddau'r Loteri oedd	52,147	55,588
a		
Cyfanswm y gwariant elusennol ar y celfyddydau drwy weithgareddau cyffredinol a gweithgareddau'r Loteri oedd	51,421	51,721

Roedd incwm y Cyngor yn 2016/17 £0.49m (1.3%) yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Er y gostyngiad o £1.26m mewn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, bu cynnydd o £0.77m mewn incwm arall, yn bennaf yn sgil y cyllid a gafwyd ar gyfer blwyddyn 2 o'n rhaglen bum mlynedd, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*. Daeth yr arian hwn gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru a'n cyllid Loteri ein hunain.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd grantiau gwerth £25.8m gennym i'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw, sef Portffolio Celfyddydol Cymru (2015/16: £27.0m). Ymrwymwyd £3.8m (2015/16: £3.4m) i'r rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*, a gwariwyd £5.4m (2015/16: £4.1m) mewn grantiau a gwariant uniongyrchol ar fentrau a gwasanaethau strategol.

Cafwyd £631,000 yn fwy o incwm nag o wariant yn ystod y flwyddyn. Roedd £623,000 yn gyllid cyfyngedig a £8,000 yn anghyfyngedig. Roedd y rhan fwyaf o'r incwm net cyfyngedig yn gysylltiedig â'r rhaglen, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*. Mae'r rhaglen hon yn cael ei rheoli dros y flwyddyn

academaidd gyda rhai o'r ymrwymiaidau grant yn berthnasol i'r cyfnod ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r incwm anghyfyngedig net yn adlewyrchu amseru'r ymrwymiaidau ar gyfer rhai o'n rhaglenni a gynlluniwyd, ond gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, cariwyd rhywfaint o gyllid drosodd i 2017/18 er mwyn gwneud iawn am y costau a oedd yn gysylltiedig â'n Hadolygiad Sefydliadol.

Ar 31 Mawrth 2017 roedd gennym gyllid anghyfyngedig wrth gefn o £1.4 miliwn (2016: £1.4 miliwn) a chyllid cyfyngedig wrth gefn o £1.2 miliwn (2016: £0.6 miliwn). Effeithir yn uniongyrchol ar ein lefel o gyllid anghyfyngedig wrth gefn gan bolisi Llywodraeth Cymru ar falansau arian ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr amlinellir hynny yn yr adran *Cyllid wrth gefn* uchod. Caniateir i'r Cyngor gario drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf ddim mwy na 2% o gyfanswm ei holl incwm na ddaw o'r Loteri. Bydd yn rhaid cytuno â'n hadran nawdd yn Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw gais i gario drosodd unrhyw swm mwy na hynny.

14

Grant Cymru Greadigol i artistiaid unigol



Intertidal Jar, Adam Buick,
Grant Cymru Greadigol 2016/17

Canlyniadau ariannol – Dosbarthu arian y Loteri	2016/17 £000	2015/16 £000
<i>Mae cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri yn dangos:</i> Cyfran o'r elw o'r Loteri Genedlaethol	16,300	19,233
Grantiau net a roddwyd	14,662	13,695
Gwarged incwm dros wariant/(gwariant dros incwm) yn y flwyddyn	(2,251)	1,016
Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth	21,291	21,377
Cronfa wrth gefn ar 31 Mawrth	2,844	5,095

Gostyngodd ein helw o'r Loteri Genedlaethol 15.2% ac roedd hyn yn sylweddol is (9.4%) na'r rhagolwg gwreiddiol. Mae'r gostyngiad yng nghyfran yr elw a roddir i achosion da yn realiti i bob dosbarthwr ac mae'r Cyngor yn ystyried ar effaith ar raglenni sy'n cael arian Loteri yn y dyfodol.

Rydym wedi clustnodi tua £22m ar gyfer ein rhaglenni grantiau cyfalaf dros y pum mlynedd rhwng 2012/13 a 2016/17. Mae'r Cyngor wedi ehangu hyn i 2017/18 gan y gall fod cyfnod hir rhwng cofrestru prosiect cyfalaf mawr a rhoi cynnig ffurfiol. Mae hyn yn aml yn effeithio ar gyfanswm gwerth y grantiau a roddir bob blwyddyn a'r incwm neu'r gwariant cyffredinol yn y pen draw.

Ar ddiwedd y flwyddyn cyfanswm y grantiau taladwy oedd £18.073m (2015/16: £17.711m). Cyfanswm yr arian na chafodd ei dynnu i lawr yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol yn ogystal ag arian a symiau cyfwerth ag arian oedd £21.953m (2015/16: £24.199m). Arhosodd balans Cronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol yn tua £21m, gydag ychydig yn unig o newid ers y llynedd, ond bu gostyngiad o 76.5% mewn arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddiwedd y flwyddyn.

Y grantiau a broseswyd	2016/17	2015/16
Nifer y ceisiadau a ddaeth i law:		
Cynlluniau cyfalaf	19	16
Cynlluniau refeniw	973	1,061
	992	1,077
Nifer y grantiau a roddwyd:	545	589
Gwerth y grantiau a roddwyd:	£'000	£'000
Cynlluniau cyfalaf	2,192	2,640
Cynlluniau refeniw	12,789	12,201
	14,981	14,841
Grantiau yn daladwy ar 31 Mawrth:		
Cynlluniau cyfalaf	6,801	6,404
Cynlluniau refeniw	11,272	11,307
	18,073	17,711

Darparodd ein Portffolio o sefydliadau celfyddydol

7,543

sesiwn ymgyfranogol a dargedai pobl â nodweddion gwarchoddedig a daeth

137,131

o bobl iddynt

Ein dyhead yw gweld cymdeithas sy'n croesawu cydraddoldeb ac yn dathlu gwahaniaeth, boed hynny o ran hil, rhyw, rhywioldeb, oedran, iaith, anabledd neu dlodi. Fodd bynnag, mae gormod o rwystrau yn dal i fodoli sy'n atal pobl rhag ymwneud â'r celfyddydau. Rhaid i'r gwaith o gael gwarded ar y rhwystrau hyn fod yn un o'n prif flaenoriaethau yn y dyfodol os ydym i wneud yn ogystal â dweud.



Dawns Rubicon
(llun: Ffotograffiaeth Siân Trenberth)

Cydraddoldebau



Richie Turner
Cadeirydd, Y Grŵp
Monitro Cydraddoldebau

Gwerthuso ein dull o weithio

Yn ystod 2016/17, aethom ati i adolygu'r hyn a gyflawnwyd ers cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf yn 2012. Aethom ati hefyd i ymgynghori ynghylch cynnwys Cynllun newydd ar gyfer y cyfnod 2017 i 2021. Roedd hon yn broses a ddatgelodd lawer.

Dywed y dystiolaeth wrthym fod angen inni wneud mwy i godi proffil ein hamcanion cydraddoldeb, a hynny o fewn ein sefydliad ni ac yn ehangach ar draws y sector celfyddydol.



Cyflwynodd Hynt, ein cynllun
Cerdyn Ymwelwyr Anabl,
3,361
cerdyn yn 2016/17

Mae ein hymchwil yn dangos nad yw presenoldeb pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn y boblogaeth yn cyfateb i'r gweithgareddau yr ydym yn eu noddi. Mae'r bwlch yn arbennig o amlwg yn y nifer isel iawn o bobl anabl ac o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu cyflogi neu eu cynrychioli ar fyrddau rheoli. Mae hyn yn fater sy'n peri cryn bryder i'r Cyngor.

Gwneud yn well

Boed yn mynychu, yn cymryd rhan neu'n gweithio yn y celfyddydau, mae angen inni weld trawstoriad ehangach o'r boblogaeth yn rhan o bethau.

Rhaid inni amcanu tuag at greu gweithlu yn y celfyddydau sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn well ar lefelau lleol a chenedlaethol, a hynny yn unol ag ystadegau'r gweithlu yn gyffredinol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu sector celfyddydau sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ym mhob maes, ac ar bob lefel o gyflogaeth yn y celfyddydau.

Erbyn 2021 bydd pobl anabl yn cynrychioli 12.9% o weithlu'r celfyddydau a bydd o leiaf 3.9% o weithlu'r celfyddydau o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Gan hynny, rydym yn ein herio ein hunain fel sefydliad, yn herio ein portffolio o gwmnïau sy'n cael arian refeniw, ac yn herio'r rheini'r ydym yn eu cefnogi yn y sector celfyddydol yn ehangach i roi mwy o bwys ar gydraddoldebau.

Bydd trawsnewid perfformiad y sector celfyddydau yn gryn her, ond rydym yn gwbl sicr mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Byddwn yn ymateb i'r her drwy gydweithio a bod yn agored i gynnal deialog. Fodd bynnag, rydym wedi methu ar y cyd fel sector i sicrhau bod gennym yr un proffil demograffig â'r boblogaeth ehangach – sef y peth lleiaf y dylem ei ddisgwyl. Ni all y sefyllfa hon barhau.

Y Gymraeg



Marian Wyn Jones
Cadeirydd,
Grŵp Monitro'r Gymraeg

Ymrwymiad sylfaenol

Mae gennym ymagwedd gynhwysol ac eang tuag at iaith. A ninnau'n sefydliad dwyieithog, mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwaith. Mae Cymru'n genedl ddwyieithog – yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac o ran ei hunigolion a'i chymunedau.

Mae tua hanner staff Cyngor Celfyddydau Cymru yn siarad Cymraeg. Rydym yn hyrwyddo'n rymus hawl pobl i ymchwilio i'w diwylliant eu hunain a'u creadigrwydd drwy'r iaith a ddewisant, pa un a ydynt yn ddefnyddiwr, yn gyfranogwr neu'n artist.

Ymateb i Safonau newydd y Gymraeg

Tasg bwysig i'r Grŵp Monitro yn ystod y flwyddyn fu edrych ar sut y rhoddwyd Safonau newydd y Gymraeg ar waith. Safonau yw'r rhain sydd wedi'u diffinio mewn deddfwriaeth.

Nod y Safonau yw sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; a sicrhau bod modd i bobl yng Nghymru fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Roedd gofyn i nifer o Safonau fod yn eu lle erbyn mis Ionawr 2017. Cwblhawyd y gwaith hwn i gyd erbyn y dyddiad gofynnol. Bydd rhagor o Safonau'n cael eu rhoi ar waith yn ystod 2017/18.

Hyrwyddo creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg

I ni, nid yw'n hymwneud â'r Gymraeg yn fater o gydymffurfio – mae'n fater diwylliannol o bwys. Mae'r celfyddydau yng Nghymru yn adlewyrchu amrywiaeth iaith, gan roi cyfleoedd pwysig i fwynhau llenyddiaeth a diwylliant tu hwnt o gyfoethog. Mae ein prosesau cyllido a'n strategaeth yn hyrwyddo hyn.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos bod cynnyrch o ansawdd da drwy gyfrwng y Gymraeg yn hynod brin, yn enwedig ym maes y ddrama. Dyma wendid yn narpariaeth y celfyddydau y mae'r Cyngor yn awyddus i roi sylw iddo.

Darparodd ein Portffolio

9,973

sesiwn ymgyfranogol yn y
Gymraeg a daeth

191,620

o bobl iddynt

Nid oes dim yn fwy hynod am
Gymru na'r Gymraeg. Mae'r
iaith yn fodd i ddeall a mwynhau
llynyddiaeth a diwylliant cyfoethog
dros ben. Mae'r celfyddydau'n
ffynnu ar hyn ac maent yn
allweddol i'r gwaith o barhau â
swyddogaeth hanfodol y Gymraeg
wrth galon bywyd yng Nghymru.



BLAS – Rhaglen Ieuencid Pontio
(llun: Iolo Penri)

Materion sy'n ymwneud a llesiant a chynaliadwyedd



Melanie Hawthorne
Cadeirydd, Y Grŵp Monitro
Datblygu Cynaliadwy

Rydym yn llwyr gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i lesiant a chynaliadwyedd. Credwn y bydd y gymdeithas ddinesig yng Nghymru yn gryfach ac yn fwy gwydn os byddwn yn coleddu gwerthoedd tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Bydd edrych ar y tymor hwy wrth wneud penderfyniadau heddiw yn help i roi cyfleoedd gwell i genedlaethau'r dyfodol.

Esbonio ein dull o weithio

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd datganiad polisi gennym yn dangos sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi ar waith ei weledigaeth ar gyfer datblygu a chynnal Cymru greadigol, gan adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae deddfwriaeth llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r cyfraniad cadarnhaol y gall y celfyddydau ei wneud yn rhan naturiol o'r nodau llesiant. Mae sector celfyddydau sy'n ffynnu, a hwnnw wedi ymrwmo i ragoriaeth ac arloesi, yn cyfrannu at lesiant diwylliannol cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i fuddsoddi yn nyfodol pobl Cymru a byddwn yn ceisio sicrhau bod ein holl gamau a'n holl bolisiau fel sefydliad yn gydnerth ac yn gynaliadwy.

O reoli ein swyddfeydd o ddydd i ddydd, i gynnal adolygiadau polisi, rydym wedi sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn greiddiol i'n syniadaeth.

Disgwylir i'r holl brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor yn buddsoddi ynddynt fodloni safonau cynaliadwyedd BREEAM. Rydym wedi sefydlu Polisi Amgylcheddol uchelgeisiol ar gyfer ein gwaith ein hunain a dyfarnwyd Achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd inni am ein hymdrechion.

Perfformiad amgylcheddol

Cymerwn ein perfformiad amgylcheddol o ddifrif ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, buom yn canolbwyntio ein hymdrechion ar fentrau sy'n cynnig buddion yn y tymor hwy.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ehangu ein defnydd o seilwaith technoleg gwybodaeth i ddarparu buddion busnes ac amgylcheddol. Gall ein holl staff gael mynediad i'n systemau o bell, drwy ddolenni diogel, ac mae ganddynt fynediad electronig llawn i bob system a dogfen ategol. Mae hyn wedi ein galluogi i leihau faint o bapur a broseswn ac a gadwn.

Rydym yn parhau i hyrwyddo newidiadau mewn ymddygiad. Mae gan y mwyafrif helaeth o'n timau sy'n datblygu'r celfyddydau liniaduron a ffonau clyfar, sy'n eu galluogi i weithio'n symudol.

Bu hyn yn fodd o leihau teithio i'r gwaith i rai o'n haelodau o staff a bydd yn galluogi teithio mwy effeithiol i gleientiaid. Rydym wedi buddsoddi mewn capasiti cynadleda fideo o safon ymhob un o'n tair swyddfa ac rydym yn annog pobl i ddefnyddio'r cyfleuster yn ddewis amgen yn hytrach na theithio. Mae modd inni gysylltu â phob lleoliad sy'n rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a'r tu hwnt, gan gynnwys yn rhyngwladol. Mae hyn yn galluogi staff, naill ai drwy ddefnyddio'r cyfarpar o safon yn ein swyddfeydd neu drwy ddefnyddio'u gliniaduron, i gymryd rhan mewn cyfarfodydd â chydweithwyr ac ystod eang o gleientiaid a rhanddeiliaid heb orfod teithio.

Rydym yn hyrwyddo cwtogi gwastraff ymhlith ein staff drwy annog lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu a didoli gwastraff, gan leihau'r hyn a anfonir i safleoedd tirlenwi. Rydym yn aildefnyddio neu'n ailgylchu ein hoffer TG a swyddfa sy'n ddiangen neu'n rhy hen i'w defnyddio. Defnyddiwn sefydliadau trwyddedig a phriodol i waredu ein gwastraff.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr o ran cyfarpar a chyflenwadau swyddfa bolisiau a systemau adrodd amgylcheddol, ac rydym yn ystyried perfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol pan ddewiswn gontractwyr a chyflenwyr.


Gwybodaeth am reoli

Caiiff rheolwyr a staff adroddiadau misol sy'n dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopio i annog defnydd is yn gyffredinol. Mae ein systemau adrodd mewnol yn ein galluogi i weld a mesur manylion am ein defnydd o ddefnyddiau traul gwastraff, ynni a theithio gan staff, ac yn sgil hynny ein hallyriadau sydd gyfwerth â charbon deuocsid (CO₂e).

Fodd bynnag, gan fod tair o'n pedair swyddfa yn cael eu prydlesu ar y cyd, gyda chostau penodol yn rhan o'n taliadau gwasanaeth, mae hyn yn parhau i gyfyngu ar ein gallu i asesu'n gywir gyfanswm ein heffaith amgylcheddol. Mae ein prif ddefnydd o drydan yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, ac mae'r landlord wedi cadarnhau bod 100% o'r cyflenwad o ffynonellau ynni adnewyddadwy y gellir eu dilysu (gwynt, dŵr a hydro).


Rydym yn hyrwyddo defnyddio ffyrdd amgylcheddol-gyfeillgar o deithio, ac yn annog staff i deithio yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl, gan roi ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol ac ariannol. Serch hynny, rhaid inni gydbwysu hyn yn erbyn y gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol i ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru, ac i hyrwyddo celfyddyd ac artistiaid Cymru yn rhyngwladol. O ganlyniad, mae amrywio anochel yn lefel yr allyriadau CO₂e sy'n deillio o deithio, yn enwedig pan ydym yn gweithio'n rhyngwladol. Eleni, buom yn ategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru drwy gynnal rhaglenni o waith rhyngwladol yn India a Tsieina.

Allyriadau CO₂e – tuedd dros 5 mlynedd



Caiff ein rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*, a ddechreuodd yn 2015/16, ei darparu drwy ysgolion ledled Cymru gyfan. Mae hyn, yn anochel, yn ychwanegu at ein lefelau teithio a'r cyfanswm oedd 8 tunnell cyfwerth â charbon deuocsid, sydd wedi'u cynnwys yn ein cyfanswmiau a adroddwyd ar gyfer 2016/17 (2015/16: 6 thunnell).

Y defnydd o ynni yn ein swyddfeydd a milliroedd busnes



GWASTRAFF	2016/17	2015/16
Gwastraff:		
Nad yw'n ariannol (tunelli)		
Tirlenwi	0.12	0.12
Aildddefnyddiwyd/ailgylchwyd	2.74	1.43

YNNI	2016/17	2015/16
Allyriadau nwyon tŷ gwydr (tunelli cyfwerth â charbon deuocsid)		
Allyriadau gros, cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol)	57	56
Defnydd ynni (kWh)		
Trydan (anadnewyddadwy)	Amherthnasol	110,033
Trydan (adnewyddadwy)	123,359	Amherthnasol
Nwy (2015/16 mewn tunelli – kWh ddim ar gael)	7,381	941
Dangosyddion ariannol (£)		
Gwariant – ynni	14,521	13,448
Costau cyflenwi dŵr (ystâd swyddfeydd) – methu ag asesu ar hyn o bryd, wedi'u cynnwys yn y tâl gwasanaeth	Amherthnasol	Amherthnasol

TEITHIO STAFF	2016/17	2015/16
Allyriadau teithio (tunelli cyfwerth â charbon deuocsid)		
Trên	10	8
Awyren ¹	64	71
Car/faniau	24	28
Costau teithio (£)		
Trên	28,081	27,364
Awyren	24,935	24,788
Car/faniau	34,905	39,889
Teithio (milltiroedd)		
Trên	130,946	114,171
Awyren	256,538	284,562
Car/faniau	76,106	86,644

Mae ein teithio ar awyrennau yn adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi ategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ystod 2016/17 drwy gynnal rhaglenni o waith rhyngwladol yn India a Tsieina.

¹ Yn cynnwys dylanwad y newid yn y cydbwysedd ymbelydrol mewn allyriadau teithio mewn awyren i gofnodi'r effaith fwyaf ar yr hinsawdd. Mae'r newid yn y cydbwysedd ymbelydrol yn fesur o effaith amgylcheddol allyriadau NOx (ocsidau nitrus) ac anwedd dŵr o'u hallyrru ar uchder mawr.

Y flwyddyn i ddod

Parhawn i ganolbwyntio ar ein cenhadaeth a'n hamcanion. Ein prif nod o hyd yw annog mwy o bobl, o'r holl gymunedau amrywiol yng Nghymru, i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Byddwn yn rhoi pwyslais arbennig ar fynd i'r afael â'r rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n ein hatal rhag cyflawni'r nod hwn.



Mae rhaglen waith y Cyngor yn 2017/18 yn canolbwyntio ar ei strategaeth Creu: Cyrraedd: Cynnal.

Sail y gwaith hwn yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae'n amlwg bod y celfyddydau yn cyfrannu at ein llesiant ac at ansawdd bywyd. A gwyddom y gall y celfyddydau ddod â sylwedd a dychymyg i'r gwaith o gyflawni ystod eang o strategaethau dinesig. Bydd sicrhau ein bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r agenda llesiant yn flaenoriaeth a dyma fydd yn llywio pob agwedd ar ein gwaith yn 2017/18

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gweithio yn ôl fframwaith y cytunwyd arno gyda'r Llywodraeth

Disgrifir yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gennym mewn Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Mae copi o'n Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2017/18 i'w gael ar ein [gwefan](#).

Cynhaliodd ein Portffolio

3,002

sesiwn ymgyfranogol a dargedai deuluoedd a daeth

78,187

o bobl iddynt

Disgrifir deg maes blaenoriaeth yn ein Llythyr Cylch Gwaith.

1 Bod yn greadigol weithgar – mae hon yn flaenoriaeth ers tro i Gyngor y Celfyddydau, ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r flaenoriaeth hon. Rydym eisiau i gynifer o bobl â phosibl brofi'r celfyddydau a'u mwynhau: cael eu hysbrydoli gan ddychymyg a chreadigrwydd, eu cyffroi gan uchelgais a sioe, eu cyfareddu gan y newydd a'r anghyfarwydd. Byddwn felly yn datblygu ar lwyddiannau'r sefydliadau allweddol a gyllidwn, gan eu hannog i barhau i geisio cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

2 Trechu tlodi – rydym yn gweithio i greu rhagor o gyfleoedd i gyflwyno buddion gweithgarwch celfyddydol i bobl sydd ar hyn o bryd yn teimlo'u bod wedi'u heithrio o'r celfyddydau. Dros y pum mlynedd diwethaf, gwelsom ragor o bobl o gymunedau dan anfantais yn cymryd rhan yn y celfyddydau. Ond rydym yn benderfynol o sicrhau ein bod yn cyfrannu wrth ddod â chyfleoedd celfyddydol o safon o fewn cyrraedd i ragor o'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.

3 Addysg a sgiliau – byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i roi ar waith ein strategaeth ar y cyd, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*. Byddwn hefyd yn edrych yn ehangach ar ddatblygu sgiliau er mwyn ymchwilio i sut y gall creadigrwydd roi'r gallu i bobl ifanc lwyddo yn y byd gwaith.

4 **Swyddi, sgiliau a'r economi** – mae'r celfyddydau yn creu swyddi a chyfoeth yn economi Cymru. Bydd manteisio ar botensial masnachol y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yn flaenoriaeth. Mae'r celfyddydau yn bwysig ynddynt eu hunain. Ond gwyddom hefyd fod y diwydiannau creadigol a diwylliannol yn rhan hanfodol o economi Cymru. Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at greu swyddi a chyfoeth, a hynny drwy greu, dosbarthu a manwerthu nwyddau a gwasanaethau.

Cefnogwyd

409

o brosiectau dan arweiniad y celfyddydau creadigol mewn ysgolion erbyn diwedd 2017.

5 **Iechyd a llesiant** – mae'r celfyddydau a iechyd yn faes gweithgarwch sy'n tyfu. Mae ymchwil academaidd yn dangos yr effaith gadarnhaol y gall ymwneud â gweithgarwch creadigol a'r celfyddydau ei chael ar iechyd a llesiant pobl. Yn ogystal ag atal afiechyd, gall y celfyddydau helpu i adfywio, cryfhau a chyfoethogi rhai o'n cymunedau tlotaf a gwella ansawdd bywyd pobl dan anfantais a phobl sy'n agored i niwed.

6 **Adfywio** – mae Cymru yng nghanol cyfnod hir o anawsterau economaidd. Mae'r bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'i bartneriaid, yn enwedig y rheini mewn llywodraeth leol, yn sail i gyllido a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Mae dulliau adfywio newydd fel y Fargen Ddinesig a'r Brifddinas-Ranbarth yn ailddiffinio'r modd y caiff pecynnau buddsoddi eu rhoi. Ond ni ellir cyfiawnhau'r datblygiadau hyn ar sail y seilwaith corfforol y maent yn ei greu yn unig. Mae angen iddynt fod yn rhan o ddull holistaidd sy'n rhoi sylw i'r modd y mae dinas yn byw ac yn anadlu, a'r llesiant sy'n dod yn sgil hynny. Bydd y rhain yn faterion pwysig i'r celfyddydau roi sylw iddynt.

7 **Gwaith rhyngwladol** – gall hyrwyddo celfyddydau gwlad fod yn ffordd hynod effeithiol o wella amlygrwydd ac enw da'r wlad honno. Mae gweld celfyddydau Cymru ochr yn ochr â'r gorau sydd gan y byd i'w gynnig yn codi safonau ac yn cynyddu dewis. Byddwn hefyd yn gweithio i wella effaith celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd, a'r gydnabyddiaeth a roddir iddynt, gan ddod â digwyddiadau diwylliannol cenedlaethol a rhyngwladol i Gymru.

Drwy ein his-adran ryngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partner rhyngwladol, y British Council, i hyrwyddo cyfleoedd cyfnewid a chyfleoedd i gydweithio'n rhyngwladol.

Cynhaliodd ein Portffolio

24,014

digwyddiad celfyddydol yn
2016/17 gyda mynychiaid
o o 4.2 miliwn a

64,058

sesiwn ymgyfranogol a esgorodd
ar 1.1 miliwn mynychiad

8 Cyhoeddi a darlledu digidol – mae technoleg newydd yn rhoi cyfleoedd cyffrous i fod yn greadigol, i ymgysylltu â'r cyhoedd ac i fanteisio'n economaidd ar eiddo deallusol. Byddwn yn cynorthwyo'r celfyddydau i ddatblygu'r gallu a'r sgiliau i ddeall yr hyn sydd gan y dechnoleg newydd i'w gynnig ac i achub ar y cyfleoedd hyn.

9 Gwytnwch – rydym yn helpu'r sefydliadau sy'n cael eu hariannu gennym i gynyddu'r incwm maent yn ei greu ac i fod yn llai dibynnol ar gyllid cyhoeddus. Wrth inni gynllunio at y dyfodol, byddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau bod y celfyddydau – a Chyngor y Celfyddydau ei hun – yn meddu ar y gwytnwch i wrthsefyll y pwysau economaidd presennol.

10 Cymru amrywiol a dwyieithog – mae Cymru'n genedl ddwyieithog – yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac o ran ei hunigolion a'i chymunedau. Nid oes dim yn fwy hynod am Gymru na'r Gymraeg. Mae'r iaith yn fodd i ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant cyfoethog dros ben. Mae'r celfyddydau'n ffynnu ar hyn ac maent yn allweddol i'r gwaith o barhau â swyddogaeth hanfodol y Gymraeg wrth galon bywyd yng Nghymru. Rydym yn hyrwyddo'n rymus hawl pobl i ymchwilio i'w diwylliant eu hunain a'u creadigrwydd drwy'r iaith a ddewisant, pa un a ydynt yn ddefnyddiwr, yn gyfranogwr neu'n artist.

Nicholas Capaldi

Nicholas Capaldi, Swyddog Cyfrifyddu
7 Gorffennaf 2017

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:

Phil George

Phil George, Cadeirydd
7 Gorffennaf 2017

Adroddiad Atebolrwydd

Cefnogwyd

513





perfformiad gan gynllun
Noson Allan y Cyngor

Ysgol Mount Stuart, Caerdydd. Cynllun *Noson Allan* yr Hyrwyddwyr Ifainc
(llun: Patrick Faulkner)

Llywodraethu Corfforaethol

Ein Hymddiriedolwyr

Aelodau'r Cyngor a wasanaethodd ers 1 Ebrill 2016 oedd:

		Presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2016/17			
		Cyngor	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol
		Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:			
		7	6	5	3
	Phil George Cadeirydd o 1 Ebrill 2016 ymlaen	7			
	Dr Kate Woodward, Is-gadeirydd o 1 Ebrill 2008 hyd at 31 Mawrth 2017 Cadeirydd Pwyllgor Cymru yn Biennale Celf Fenis (hyd at 31 Mawrth 2017)	3			
	Marion Wyn Jones o 1 Ebrill 2012 ymlaen Is-gadeirydd o 1 Ebrill 2017 ymlaen Cadeirydd Grŵp Monitro'r Gymraeg	7			
	Iwan Bala o 1 Tachwedd 2016 ymlaen	2/3			
	Andy Eagle o 1 Tachwedd 2016 ymlaen Aelod (o 9 Rhagfyr 2016 ymlaen) o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol	2/3			0/1

		Presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2016/17			
		Cyngor	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol
		Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:			
		7	6	5	3
	Kate Eden o 1 Ebrill 2017 ymlaen				
	Michael Griffiths OBE o 1 Ebrill 2012 ymlaen Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol	7	4		1
	Melanie Hawthorne o 1 Ebrill 2012 ymlaen Cadeirydd y Grŵp Monitro Cynaliadwyedd	6			
	Dr Lesley Hodgson o 1 Ebrill 2012 ymlaen Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	6.5	6		
	Margaret Jervis MBE DL Dirprwy Raglaw o 1 Ebrill 2008 hyd at 31 Mawrth 2017 Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol (hyd at 31 Mawrth 2017)	6			3
	Andrew Miller o 1 Ebrill 2012 Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol	7			2

Presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2016/17

		Cyngor	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol
		Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:			
		7	6	5	3
	Rachel O'Riordan o 1 Ebrill 2017				
	Dafydd Rhys o 1 Ebrill 2017				
	Richard Turner o 1 Ebrill 2010 Cadeirydd y Grŵp Monitro Cydraddoldebau	6			
	Alan Watkin o 1 Ebrill 2010 Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf	7		3.5	
	John C Williams o 1 Ebrill 2010 Cadeirydd y Pwyllgor Cyfalaf	6		5	

Presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2016/17			
Cyngor	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol
Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:			
7	6	5	3

<i>Presenoldeb aelodau annibynnol o Bwyllgorau:</i>			
Andrew Butler	6		
Katrina Michael	3		
Arwel Thomas	5		
Ruth Cayford		5	
Mark Davies		2	
Roland Wyn Evans		2	
Alan Hewson		5	
Philip Westwood			3

Yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, mae aelodau o'r Cyngor ac aelodau annibynnol o'r Pwyllgorau'n datgan budd o ran bod yn gyfarwyddwyr, yn aelodau o fyrddau rheoli (neu eu cyfateb) neu gyflogaeth a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau parthed Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r gofrestr o fuddiannau Aelodau o'r Cyngor ac Aelodau annibynnol o'r Pwyllgorau ar gael i'w gweld gan y cyhoedd drwy wneud apwyntiad mewn unrhyw un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Datgelir pob trafodyn ariannol rhwng yr aelodau a'r Cyngor yn y datganiadau ariannol, dan *Drafodion â phartion cysylltiedig*.

Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol

Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cywirdeb data. Sicrha systemau TGCh fod rheolaeth lem ar ddiogelwch y data. Hyd y gwyddom, ni chollwyd unrhyw ddata yn y cyfnod dan sylw.

Ein Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Nicholas Capaldi

Ein Swyddfeydd

Canolbarth a Gorllewin Cymru:

Y Mwnt

18 Stryd y Frenhines

Caerfyrddin

SA31 1JT

Gogledd Cymru:

Parc y Tywysog II

Rhodfa'r Tywysog

Bae Colwyn

LL29 8PL

De Cymru a'r swyddfa

genedlaethol:

Plas Bute

Caerdydd

CF10 5AL

Archwilydd – Gweithgareddau Cyffredinol

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Archwilydd – Dosbarthu'r Loteri

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

157-197 Heol Palas Buckingham

Llundain

SW1W 9SP

Archwilwyr mewnol

Deloitte LLP

5 Sgwâr Callaghan

Caerdydd

CF10 5BT

Cyfreithwyr

Geldards LLP

Tŷ Dumfries

Plas Dumfries

Caerdydd

CF10 3ZF

Banc

Santander UK p.l.c.

9 Heol y Frenhines

Caerdydd

CF10 2UD

Cadarnhad y Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol ag Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal archwiliad allanol y Cyngor yn unol â'r telerau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

Yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd) mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad allanol y Cyngor yn unol â'r telerau a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Hyd y gwn i, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Cyngor yn ymwybodol ohoni. Credaf fy mod wedi cymryd pob cam y disgwylid ohonof, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Yn fy marn i mae'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymeraf gyfrifoldeb personol drostynt a'r farn sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu

7 Gorffennaf 2017

Datganiad Llywodraethu

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r datganiad llywodraethu hwn yn gyfrifoldeb personol i mi, Nicholas Capaldi. Mae'n disgrifio trefniadau llywodraethu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae hefyd yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau am sicrhau ein bod yn cynnal ein busnes, o ran gweithgarwch y trysorlys a'r loteri, yn unol â'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys darparu'r sicrwydd angenrheidiol ein bod yn glynu at y safonau cywir a sefydlu'r trefniadau diogelu angenrheidiol i amddiffyn y defnydd o arian y cyhoedd.

Esboniaf sut y cyfrifyddir yn iawn am yr arian hwn a'i ddefnyddio'n gynnil, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni ein cynlluniau a'n blaenoriaethau.

Cymerodd

86.3%

o blant Cymru ran yn y celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant, 2016

Y fframwaith deddfwriaethol

Gweithredwn mewn amgylchedd cyfreithiol sydd wedi'i bennu a'i reoleiddio'n ofalus. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i Weinidog Llywodraeth Cymru dros yr Economi a'r Seilwaith. Gweithredwn o fewn fframwaith sy'n nodi'r telerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn glynu atynt wrth roi inni ein cyllid cymorth grant ac sy'n nodi sut gallwn ei ddefnyddio. Rheolwn ein harian gydag uniondeb ac er budd y cyhoedd, megis cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, glynnw at yr egwyddorion sydd yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

A ninnau'n ddosbarthwr arian y Loteri o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd), rydym yn atebol i Ysgrifennydd y Deyrnas Unedig dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cawn ein cyfarwyddiadau ariannol oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a'n cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn nodi sut mae'n rhaid inni weithredu o ran gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

Mae'n ofynnol inni roi cyfrif am ein gweithgarwch dosbarthu arian y Loteri ar wahân i weddill ein gwaith ac mae gennym drefniadau priodol ar waith i sicrhau y cynhyrchwn ddwy set o gyfrifon cyhoeddedig. Mae ein cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri yn cael eu harchwilio dan drefniant gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol.

A ninnau'n elusen, mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Deddfau Elusennau 1960, 2006, 2011 a 2016. Felly, dilynwn arweiniad a gyflwynir gan y Comisiwn Elusennau, gan weithredu'n unswydd i gyflawni ein hamcanion elusennol a siartredig.

Mae'r gweithgareddau yr ydym yn eu cyflawni mewn cysylltiad â'n *Cynllun Casglu* yn ddarostyngedig i Ddeddf Credyd Defnyddwyr ac i'r arweiniad a gyhoeddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rydym wedi dylunio ein systemau, ein prosesau a'n rheolaethau i gymryd i ystyriaeth y gwahanol gyfrifoldebau hyn. O fewn y fframweithiau hyn gwnawn benderfyniadau annibynnol o ran

cyfeiriad strategol y sefydliad, cyllido grantiau, a phenderfyniadau ariannol eraill.

Mae asesu risgiau yn hanfodol i'n gwaith a dylid darllen y Datganiad Llywodraethu hwn ochr yn ochr ag adran Prif risgiau ac ansicrwydd yn Adroddiad y Perfformiad.

Petai'r angen yn codi, mae'r cyrff canlynol yn gallu ymchwilio i fusnes y Cyngor: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu; y Comisiwn Elusennau; yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol; y Comisiynydd Gwybodaeth; y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru.




Ein strwythur Llywodraethu

Cawn ein llywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr – y Cyngor – sy'n cynnwys Cadeirydd a hyd at 17 o aelodau annibynnol eraill, a phenodir un ohonynt yn Is-gadeirydd. Daw pob Ymddiriedolwr ag arbenigedd a gwybodaeth i'r broses o arolygu a datblygu ein gweithgareddau. Ar ddiwedd Mawrth 2017, roedd ein Cyngor yn cynnwys y Cadeirydd a deuddeg aelod. Wedi i gyfnod rhai o'r aelodau yn eu swydd ddod i ben, ar adeg llofnodi'r cyfrifon hyn roedd y Cyngor yn cynnwys Cadeirydd a thri ar ddeg o aelodau.

Ein trefniadau Llywodraethu

Penodir ein Hymddiriedolwyr gan y Gweinidog dros yr Economi a'r Seilwaith drwy broses ddewis agored a gynhelir yn unol ag egwyddorion Nolan. Gwneir penodiadau fel rheol am gyfnod o dair blynedd a gellir eu hadnewyddu am fwyafswm o ddau gyfnod ychwanegol.

Telir Cadeirydd y Cyngor ar raddfa a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae pob Ymddiriedolwr arall yn rhoi o'i amser a'i arbenigedd yn wirfoddol. Serch hynny, cânt eu had-dalu am dreuliau parod yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor.



Y Cyngor

Cyfrifoldebau

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ein cyfeiriad strategol ac am reoli ein sefydliad. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau ein bod, drwof fi'r Prif Weithredwr, yn gweithredu o fewn y sawl atebolrwydd gwahanol y mae'n rhaid inni eu cyflawni.

Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol ar bolisi corfforaethol: llunio ein Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol ac unrhyw newidiadau mawrion i delerau ac amodau gwasanaeth y staff. Hwyl sy'n pennu'r gyllideb flynyddol, penderfynu ar ddyraniad blynyddol y grantiau i sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, a chymeradwyo pob grant dros £50,000, neu dros £250,000 yn achos prosiectau cyfalaf a gyllidir gan arian Loteri a dyfarniadau *Gwynnwch* dros £100,000. Caiff penderfyniadau ar grantiau sy'n is na'r trothwyon hyn eu dirprwyo i aelodau awdurdodedig o'r staff ac i'r Pwyllgor Cyfalaf.

Mae'r aelodau'n cynrychioli'r Cyngor wrth iddynt fynychu digwyddiadau celfyddydol ledled Cymru.

Crynodeb o drafodaethau a gafwyd yn 2016/17

Wrth iddo graffu'n barhaus ar Lywodraethu, adolygodd y Cyngor ein Fframwaith o Sicrwydd Corfforaethol a chofrestr risgiau a chyflawnodd asesiad o'i berfformiad ei hun. Paratôdd a monitrodd y Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol, a derbyniodd ddiweddariadau ar feysydd perfformiad allweddol gan gynnwys y Cynlluniau Cydraddoldebau, Datblygiad Cynaliadwy a'r Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwynt polisi oedd goruchwyllo'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Gweithredol. Roedd y prosiectau allweddol yn cynnwys ail flwyddyn rhaglen *Dysgu Creadigol*, lansio rhaglen *Gwynnwch* a chynllunio ar gyfer datblygu strategaeth newydd y Celfyddydau ac Iechyd.

Tasg sylweddol i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn oedd goruchwyllo ein *Hadolygiad Sefydliadol*. Gosododd y Cyngor dargedau lleihau costau a chytunodd ar gynigion staffio newydd.

Y Cyngor

Nifer y cyfarfodydd a phresenoldeb

Cyfarfu'r Cyngor 7 gwaith yn ystod 2016/17 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 73 o weithiau allan o 83 posibl. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor oddeutu pob 6 wythnos fel arfer. Mae copïau o agendâu a chofnodion ein cyfarfodydd Cyngor i'w cael ar ein [gwefan](#).

I gefnogi ei waith, penododd y Cyngor dri phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol. Dyma hwy: y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg; y Pwyllgor Cyfalaf; a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol. Mae gan y Cyngor hefyd bwyllgor ymgynghorol ad hoc i'w gynghori ar bresenoldeb Cymru yn y Biennale Celf rhyngwladol yn Fenis, a thri grŵp monitro mewnol.

Mae pob Pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, gydag un ohonynt yn gweithredu'n Gadeirydd, ac aelodau annibynnol o'r pwyllgor a benodir drwy broses ddewis agored oherwydd eu sgiliau arbenigol a'u profiad. Darperir cofnodion pob cyfarfod Pwyllgor i'r Cyngor eu trafod a'u cymeradwyo. Mae cylch gorchwyl pob pwyllgor i'w gael ar ein [gwefan](#). Adolygir y cylchoedd gorchwyl yn flynyddol.

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor ac o bob Pwyllgor yn mynd drwy broses sefydlu sy'n briodol i'w swyddogaeth a chaiff ei annog i barhau â'i ddatblygiad yn ystod cyfnod ei benodiad.

Ein tri grŵp monitro mewnol yw – Cydraddoldeb, Datblygiad Cynaliadwy a'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynorthwyo i symud agenda'r Cyngor ymlaen yn y meysydd hyn. Cyflwynwyd cofnodion pob cyfarfod i'r Cyngor.

Cawn gefnogaeth oddi wrth ein Hymgyngorwyr Cenedlaethol yn ein gwaith a chynhigiant eu hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol. Mae eu gwybodaeth a'u cymorth arbenigol yn cyfrannu at ddatblygu polisiau, asesu ceisiadau am grantiau a chynghori i swyddogion. Penodir hwy drwy broses recriwtio agored.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd ein llywodraethu, ein gwaith rheoli risg a'n trefniadau rheoli mewnol. Mae'n craffu ar reolaeth a gweinyddiaeth y sefydliad i brofi a weithredir y prosesau a gweithdrefnau i'r safon uchel y mae'r Cyngor yn ei disgwyl.

Crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd yn 2016/17

Elfen bwysig o waith y Pwyllgor yw craffu ar y Fframwaith o Sicrwydd Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod y systemau, prosesau ac ymddygiadau sy'n enghreifftio llywodraethu da a gweithredu effeithiol ar waith.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr holl adroddiadau archwilio mewnol ac yn monitro cynnydd unrhyw argymhellion a godwyd. Yn ystod 2016/17 cyflwynwyd 5 adroddiad. O'r meysydd a adolygwyd, rhoddwyd sgôr sicrwydd 'sylweddol' i 3 a 'chymedrol' i 2. Cyflwynwyd 5 o adroddiadau ymgynghorol a dilynol yn ogystal.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gan y Cyngor graffu ar agweddau ar yr Adolygiad Sefydliadol. Bu cyngor y Pwyllgor ar faterion ariannol a gweithredol o gymorth i gryfhau'r cynigion terfynol.

Mater allweddol i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd sicrhau bod polisïau a strategaethau Cyngor y Celfyddydau ar gyfer seiberddiogelwch ac ar gyfer atal twyll yn parhau'n addas i'r diben.

Nifer y cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor 6 gwaith yn ystod 2016/17 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 24 o weithiau allan o 30 posibl. Cynhelir cyfarfodydd Pwyllgor yn chwarterol fel arfer, gyda chyfarfod ychwanegol ar ddechrau'r haf.

Y Pwyllgor Cyfalaf

Cyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor Cyfalaf yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor ynghylch datblygu polisi ar bob agwedd ar ddatblygu cyfalaf, gan gynnwys blaenoriaethau cyllido a chynlluniau. Darparodd y Cyngor oruchwyliaeth hefyd o raglen *Creu Cymunedau Cyfoes*. Mae'r Cyngor yn dirprwyo i'r Pwyllgor yr awdurdod i wneud penderfyniadau cyllido am grantiau cyfalaf y Loteri o £50,001 i £250,000, a gwneud argymhellion ar grantiau cyfalaf mwy i'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro prosiectau byw a chynghori'r Cyngor arnynt.

Crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd yn 2016/17

Prif weithgaredd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd monitro'r cyflawni yn erbyn strategaeth Datblygu Cyfalaf bum mlynedd y Cyngor (2012-2017).

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn amrywiaeth o brosiectau cyfalaf mawr a chymhleth. Bu cwblhau prosiect blaenllaw Pontio ym Mangor ym mis Chwefror 2016 yn garreg filltir bwysig yng ngwaith y Pwyllgor, gyda'r gwaith yn ystod y flwyddyn yn canolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau cyllido a oedd yn eu lle.

Carreg filltir arall a gyrhaeddwyd yn ystod y flwyddyn oedd ailagor Amgueddfa ac Oriel Glynn Vivian yn Abertawe ar ei newydd wedd.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd brosiectau oedd yn cael eu datblygu, gan sicrhau bod cyfatebiaeth briodol rhwng y ceisiadau oedd ar y gweill a'r cyllid yr oedd ei angen i gefnogi'r ceisiadau hynny.

Mae tynnu arian i lawr yn dal i achosi anawsterau. O dan reolau'r Loteri, rhaid rhoi cyfrif am ymrwymiad llawn o'r cyllid ar adeg y dyfarnu. Fodd bynnag, mae trafferthion ymgeiswyr i sicrhau'r cyllid partneriaeth gofynnol yn golygu ei bod yn cymryd yn hirach i wireddu prosiectau. Mae gan hyn oblygiadau i falansau cyfalaf y Loteri.

Nifer y cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor 5 gwaith yn ystod 2016/17 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 23 o weithiau allan o 30 posibl. Cynhelir cyfarfodydd Pwyllgor oddeutu pob deufis, er bod llai o gyfarfodydd yn ystod yr haf.

Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol

Cyfrifoldebau

Mae gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol gyfrifoldeb am gytno faint o dâl a gaiff y Cadeirydd o fewn y cyfyngiadau a osodir gan Weinidogion Cymru; am bennu amcanion blynyddol y Prif Weithredwr ac adolygu ei berfformiad; am benodi aelodau i'r uwch swyddi yn y corff gweithredol; ac am oruchwyllo a monitro materion adnoddau dynol ar ran y Cyngor.

Crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd yn 2016/17

Prif weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd goruchwyllo polisiau Adnoddau Dynol y Cyngor, a rheoli'r polisiau tâl. Hefyd adolygodd y Cyngor wybodaeth rheoli gan amlinellu ein perfformiad yn erbyn amcanion Adnoddau Dynol. Cytunodd hefyd ar **Ddatganiad Polisi Tâl** cyntaf y Cyngor a fydd yn ddogfen a fydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor yn pennu'n benodol gydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r **Cylch Gwaith Cyflog** yn ymwneud â'r holl aelodau staff cyflogedig eraill a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Mater allweddol i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd yr ad-drefniad o staff y Cyngor, ei **Adolygiad Sefydliadol**. Yn ogystal â gwneud sylwadau ar strwythur staffio, rhoddodd y Pwyllgor gyngor hefyd ar opsiynau eraill i dorri costau, gan gynnwys adolygiadau i'r telerau ac amodau cyflogaeth.

Nifer y cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor 3 gwaith yn ystod 2016/17 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 9 gwaith allan o 13 posibl.



Cefnogwyd

151

ysgol gan Gynllun yr
Ysgolion Creadigol
Arweiniol yn 2016/17

Ysgol Gyfun Bryn Hafren
(llun: Rebecca Roach, Cydlynnydd yr Ysgol)

Sut y gweithiwn

Hyrwyddwn werthoedd llywodraethu da

Rydym yn cadw at saith o Egwyddorion yr Arglwydd Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob un o'n cyflogeion, ein Hymddiriedolwyr, aelodau o'n Pwyllgorau a'n Hymgynghorwyr Cenedlaethol yn deall a chymhwyso'r Egwyddorion hyn ac yn glynu wrthynt.

I gefnogi hyn, mae gennym **God Ymarfer Gorau** sy'n fodd i sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion wedi'u diffinio'n glir. Mae hefyd yn cynnwys y safonau o briodoldeb y disgwylir y dylai aelodau a'r staff lynu wrthynt. Cafodd y Cod ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod y flwyddyn. Mae copi i'w weld ar ein [gwefan](#).

Mae gofyn i bob aelod o'r Cyngor, pob aelod o bob Pwyllgor a phob un o'n Hymgynghorwyr Cenedlaethol a phob aelod o'n staff lenwi datganiad blynyddol sy'n datgan budd a sicrhau nad oes oedi wrth roi gwybod inni am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau. Mae cofrestr fudd yr Aelodau o'r Cyngor a'r Pwyllgorau a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o wneud apwyntiad, ymhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Ymgwymerodd y Cyngor, a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ag adolygiad hunanasesu blynyddol o berfformiad. Ar y cyfan, roedd canfyddiadau'r gwerthusiadau hyn yn gadarnhaol yn ystod 2016/17. Caiff meysydd a nodwyd i'w wella eu dal mewn cynlluniau gweithredu. Yn benodol, y casgliad yn dilyn hunanasesiad blynyddol y Cyngor oedd bod y mwyafrif helaeth o'i ddangosyddion effeithiolrwydd wedi'u cyflawni.

Roedd y Cyngor yn fodlon â'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn adolygiad y llynedd. Cydnabu'r Cyngor bwysigrwydd sicrhau cymysgedd priodol o arbenigedd a sgiliau celfyddydol ar Fwrdd yr

Ymddiriedolwyr wrth benodi aelodau newydd. Meysydd arbennig i ganolbwyntio arnynt fydd monitro ansawdd, annog ymrwymiad pellach i'r Gymraeg ymysg sefydliadau a gyllidir, a'r defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Nid yw'r cod Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn uniongyrchol gymwys i Gyngor Celfyddydau Cymru. Serch hynny, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn fodlon bod y trefniadau sydd gennym ar waith yn dangos ymarfer da. Credaf hefyd fod Cyngor y Celfyddydau wedi cydymffurfio â'r egwyddorion o atebolrwydd, effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth a fynegwyd yng Nghod y Trysorlys cyn belled ag y bônt yn berthnasol i Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Dosbarthwyr Arian y Loteri. Mae'r Cyngor yn cytuno â'r farn hon.

Chwythu'r chwiban

Mae gan y Cyngor bolisi sydd ar waith am chwythu'r chwiban a thynnir sylw'r staff ato wrth gael eu sefydlu yn y gwaith ac mae ar gael yn ein Llawlyfr Gwaith ac ar ein mewnrwyd. Adolygir y polisi o leiaf bob tair blynedd. Yn ystod y flwyddyn ni chafwyd yr un adroddiad am ddigwyddiad.

Penderfynu'n wybodus

Porthir penderfyniadau ein Cyngor a'n Pwyllgorau gan gyngor a ddarparwyd gan staff Cyngor y Celfyddydau. Disgwylir i ddogfennau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir bob gwybodaeth berthnasol sydd ei hangen i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae pob dogfen allweddol yn amlygu'r canlynol: goblygiadau ariannol, amgylcheddol ac ar gyfer adnoddau dynol; risgiau; a datganiad o sicrwydd.

Caiff adroddiadau ysgrifenedig eu cylchredeg ymlaen llaw cyn pob cyfarfod o'n Cyngor a'n Pwyllgorau i'w hystyried gan aelodau, gan dderbyn eitemau a gyflwynir ac adroddiadau ar lafar



Sinffonia Cymru
(llun: Rebecca Thomas, Ffotograffiaeth Sunflower)

flwyddyn, roedd y Cyngor yn fodlon ag amseroldeb ac ansawdd y data a'r wybodaeth a ddarparwyd ar ei gyfer. Yn yr enghreifftiau prin pan nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn diwallu ein safonau, rydym yn gwrthod y ddogfen a chomisiynu un arall yn ei lle.

Lle bo'n briodol, mae cyngor gan ein swyddogion yn cael ei ategu gyda chyngor arbenigol oddi wrth ein Hymgynghorwyr Cenedlaethol a, lle bo'n berthnasol, gyda chyngor arbenigol gan arbenigwyr a barn gan gyfreithwyr. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod ganddo ddigon o amser a gwybodaeth i drafod polisi ac ystyried cyfeiriad y sefydliad i'r dyfodol yn iawn.

Ymgynghorir ar gynigion polisi allweddol ymhlith y cyhoedd. Cyn bod y polisiâu'n derfynol, porthir trafodaethau'r Cyngor ymhellach gan yr ymatebion a'r adborth.

Darparwn gyllid i drydydd partïon

Un o ddyletswyddau pwysicaf Cyngor y Celfyddydau yw dosbarthu cyllid i ddatblygu a chefnogi celfyddydau Cymru. Rydym yn ddosbarthwr pwysig o gyllid – oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau eraill, gan gynnwys – lle bo'n gymwys – cyllid o Ewrop. Cymerwn ein cyfrifoldebau o ddifrif.

Rydym wedi datblygu systemau a gweithdrefnau gwydn ac atebol i gefnogi'r gweithgaredd allweddol hwn. Caiff ein prosesau rhoi grantiau a monitro eu hadolygu'n flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol i sicrhau eu bod yn aros yn addas i'w diben. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein gweithgareddau rhoi grantiau bob blwyddyn. Mae pob argymhelliad y mae ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn ei wneud yn cael ei fonitro gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu mewn da bryd.

Caiff penderfyniadau ynghylch dyfarnu statws sefydliad sy'n cael arian refeniw i sefydliad, a'i gynnwys ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, eu gwneud gan y Cyngor ar sail cyngor (a gefnogir gan asesiadau trylwyr) gan swyddogion.

Diogelwch data

Rydym yn dal llawer iawn o ddata ac rydym yn cymryd ein rhwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data o ddifrif. Sicrha ein systemau a'n rheolau TGCh fod rheolaeth lem ar ddiogelwch y data. Aseswn ein trefniadau diogelwch yn rheolaidd a chymerasom gamau i'w gwneud yn gadarnach. Parhawn i'w monitro'n ofalus.

Nid amlygwyd unrhyw faterion oedd yn peri pryder difrifol yn y maes hwn gan ein hadolygiad uchel ei lefel o reolaethau TG a wnaeth ein harchwilwyr allanol, na chan ein rhaglen o adolygiadau archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn, na chan ein hadolygiad diogelwch blynyddol a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru. Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y flwyddyn.

Cyfarwyddiadau gan Weinidogion

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol sy'n cynnwys cyfarwyddiadau priodol. Ni chyflwynwyd inni unrhyw Gyfarwyddiadau yn ystod y flwyddyn nac unrhyw Gyfarwyddiadau oddi wrth y Gweinidogion o ran ein gweithgareddau Loteri.

Canlyniadau archwilio

Caiff canfyddiadau archwiliadau blynyddol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru eu nodi mewn Llythyr Rheoli at y Cyngor. Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y canfyddiadau ac yn eu monitro i sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol yn

eu cylch a hynny'n brydlon. Bydd rhoi grantiau'n parhau i fod yn brif ffocws y rheolwyr a'r Pwyllgor.

Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol

Yn fy marn i, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddigonol i'm galluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn rhinwedd fy swydd, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu.



Nick Capaldi, Swyddog Cyfrifyddu
7 Gorffennaf 2017

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



Phil George, Cadeirydd
7 Gorffennaf 2017

“Ar sail y gwaith a ymgymerasom ag ef fel a fanylir yn adroddiad ein harchwiliad mewnol yn 2016/17 a’n gwaith dilynol mewn perthynas â chanfyddiadau archwiliad 2015/16, ein hasesiad cyffredinol yw bod y dosbarthiad sicrwydd ar gyfer llywodraethu corfforaethol a rheoli risg yn parhau yn **sicrwydd sylweddol**.

Ar sail y gwaith a ymgymerasom ag ef yn ystod y flwyddyn gallwn gyrraedd y casgliad bod gan Gyngor y Celfyddydau system o reolaeth fewnol sy’n gadarn yn ei hanfod, a ddylai ddarparu **sicrwydd cymedrol** o ran cyflawni amcanion Cyngor y Celfyddydau.”

Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol
Deloitte LLP
Archwilydd Mewnol

Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff

Cytunir â Llywodraeth Cymru ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mae'r Cyngor yn talu gweddill y staff yn unol â system gyflog a graddio y cytunwyd arni.

Bob blwyddyn, mewn ymgynghoriad â'r undeb llafur cydnabyddedig, llunnir cylch gwaith cyflog a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwy. Mae'r pecyn cyflog ac amodau canlynol yn gyfrwymol ar y Cyngor cyfan tan y cylch negodi nesaf. Mae cynnydd dan y cylch gwaith cyflog yn dibynnu ar berfformiad a brofwyd gan system y Cyngor o adolygiadau datblygiad personol.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu ymroddiad amser lleiafysmiol i fusnes y Cyngor. Rhydd Llywodraeth Cymru hefyd gyngor ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn

Yng nghydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr mae cyflog sylfaenol a chymhwysedd am fonws blynyddol. Argymhella'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol fonwsau blynyddol i'r Cyngor ar ôl ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn ôl nifer o amcanion a bennwyd ymlaen llaw. Cymeradwyodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor i gynnig bonws llawn i'r Prif Weithredwr. Serch hynny, gwrthododd y Prif Weithredwr ei hawl i gael bonws anghyfunol ar gyfer 2016/17 a nodi y byddai'n derbyn, unwaith y bydd y cylch gwaith cyflog wedi'i gytuno, yr un lefel o gynnydd cyfunol ag y câi aelodau cymwys eraill o'r staff.

Penodir aelodau'r Cyngor gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd a gellid eu hailbenodi am gyfnod pellach. Cymerodd y Cadeirydd presennol, Phil George, awenau'r gadeiryddiaeth ar 1 Ebrill 2016.

Cyflogir y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr – y Tîm Uwch-reolwyr – ar gontractau parhaol yn unol â thelerau ac amodau safonol y Cyngor. Mae hawl ganddynt gael rhybudd o 13 wythnos i derfynu eu cyflogaeth.

Dyddiadau dechrau'r gyflogaeth yw:

	Phil George Cadeirydd 1 Ebrill 2016		Diane Hebb Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgysylltu o 1 Chwefror 2012 ymlaen 13 Ionawr 1992
	Nicholas Capaldi Prif Weithredwr 15 Medi 2008		Siân Tomos Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio o 1 Chwefror 2012 ymlaen 3 Mai 1994
	David Alston Cyfarwyddwr y Celfyddydau 1 Gorffennaf 2005		Hywel Tudor Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau 21 Ionawr 2002
	Dr Katherine Davies Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi a Chyllido o 1 Chwefror 2012 ymlaen 24 Awst 1998		

Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a'u buddion pensiwn fel y dangosir yn y tablau canlynol.

Mae swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at un cyfanswm ffigurau cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth ac yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994.

Dyma sut y cyfrifir gwerth buddion pensiwn:
(cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn * x 20)

+ (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad)

– (cyfraniadau a wnaed gan yr aelod)

*gan eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ond cyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn, er enghraifft newidiadau yng nghyflog rhywun, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyfan.

Un cyfanswm ffigurau cydnabyddiaeth ariannol y Tîm Uwch-reolwyr (yn ddarostyngedig i archwiliad):

Enw <i>Swydd/Safle</i>	2017			2016		
	Band taliadau £'000	Buddion pensiwn £'000	Un cyfanswm taliadau £'000	Band taliadau ¹ £'000	Buddion pensiwn £'000	Un cyfanswm taliadau £'000
Nicholas Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	95-100	22	115-120	95-100	27	120-125
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	70-75	17	85-90	70-75	22	90-95
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi a Chyllido</i>	65-70	36	105-110	65-70	54	120-125
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi</i>	65-70	28	95-100	65-70	38	100-105
Siân Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</i>	65-70	35	100-105	65-70	48	110-115
Hywel Tudor [†] <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	70-75	16	85-90	70-75	24	90-95

[†] Telir i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ddigollediad o £95,000 (gros) am gollu swydd yn ystod 2017/18. Nid yw'r swm wedi'i gynnwys yn ei un cyfanswm ffigur cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn hon ond caiff ei gynnwys yng nghyfanswm costau diswyddo a digolledu.

Buddion pensiwn y Tîm Uwch-reolwyr (yn ddarostyngedig i archwiliad):

Enw <i>Swydd/Safle</i>	2017		2017		2017	2016	2017
	Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed £'000		Cyfanswm pensiwn cronodig yn 65 oed fel ar 31/03/17 a chyfandaliad cysylltiedig £'000		Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ¹ ar 31/03/17 £'000	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/16 £'000	Cynnydd gwirioneddol ² yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod £'000
Nicholas Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfandaliad	10-15 30-35	220	167	21
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 0-2.5	Pensiwn Cyfandaliad	5-10 25-30	227	187	18
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi a Chyllido</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfandaliad	25-30 70-80	555	437	34
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgysylltu</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfandaliad	10-15 40-45	323	252	27
Siân Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 5-7.5	Pensiwn Cyfandaliad	20-25 60-65	470	361	33
Hywel Tudor <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 0-2.5	Pensiwn Cyfandaliad	10-15 40-45	324	268	16

¹ **Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** - Ystyr Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddion a brisir yw buddion cronodig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan ymedy'r aelod â'r cynllun a dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn y cynllun blaenorol. Noda'r ffigurau pensiwn a ddangosir y buddion a gronwyd gan yr unigolyn ar ôl dod yn aelod llawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Cynnwys y ffigurau werth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Cynhwysant hefyd unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronodd aelod drwy brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariaid ac nid ystyria unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawllir buddion pensiwn.

² **Cynnydd Gwirioneddol yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** - Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Ni chynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronodig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) a defnyddia ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Caiff y Cadeirydd dâl am ei wasanaethau ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Ni thelir Aelodau eraill o'r Cyngor nac Aelodau o'r Pwyllgorau am eu gwasanaethau. Ad-dalwyd cyfanswm o £10,893 (2015/16: £13,759) i 12 (2015/16: 13) o aelodau o'r Cyngor am gostau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor. Y cyfanswm a ddyrannwyd i weithgareddau cyffredinol oedd £4,547 (2015/16: £7,105) a £6,346 (2015/16: £6,654) i weithgareddau dosbarthu arian y loteri.

Cynhwysai cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr y canlynol (yn ddarostyngedig i archwiliad):


	2017 £	2016 £
Cadeirydd Cyflog	43,810	43,810
Prif Weithredwr Cyflog	95,250	95,248
Cyfraniad pensiwn y cyflogwr	19,050	19,050
	114,300	114,298
Treuliau teithio a chynhaliaeth a ad-dalwyd yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor:		
Cadeirydd	£4,298	£2,217
Prif Weithredwr	£5,489	£5,925

Codir 64% (2015/16: 64%) o daliadau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar weithgareddau cyffredinol a 36% (2015/16: 36%) ar ddsbarthu arian y loteri.


Dyma'r gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (Cyngor cyfan) (yn ddarostyngedig i archwiliad):	£31,700	£31,700
Dyma ystod y gydnabyddiaeth flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (Cyngor cyfan) (yn ddarostyngedig i archwiliad):	£20,147 to £95,250	£19,752 to £95,248
Dyma'r gymhareb rhwng y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol a chydabyddiaeth ariannol flynyddol yr aelod o'r staff â'r cyflog uchaf (Cyngor cyfan) (yn ddarostyngedig i archwiliad):	1:3	1:3

Cyfansoddiad y staff ar 31 Mawrth (cyfwerth ag amser llawn – Cyngor cyfan)


2017




2016



Cyfanswm 2017 (90)



Cyfanswm 2016 (88)



■ Gwryw
■ Benyw

Cynlluniau digolledu – pecynnau ymadael (Cyngor cyfan):

Band cost pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16
£10,000 to £24,999	-	-	3	-	3	-
£25,000 to £49,999	-	-	3	-	3	-
£50,000 to £99,999	2	-	3	-	5	-
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	2	-	9	-	11	-
Cyfanswm y gost (£'000)	167	-	360	-	527	-

Pennwyd y costau diswyddiadau yn unol â darpariaethau polisi diswyddiadau'r Cyngor. Fel arfer, mae'r Cyngor yn talu costau ymadael pan fo'r gyflogaeth yn dod i ben ond darpara ar gyfer y costau ymadael yn llawn ar yr adeg pan fo gwybodaeth sy'n ddigon manwl ar gael i wneud hynny.

Roedd pob un o'r 'ymadawiadau eraill a gytunwyd' yn ymwneud â cheisiadau am ddiswyddo lle, yn unol â pholisi diswyddiadau'r Cyngor, mae swyddi'r cyflogeion naill ai wedi diflannu yn y strwythur newydd neu wedi'u llenwi gan gyflogeion eraill a fyddai fel arall wedi'u diswyddo'n orfodol. Nid oes gwahaniaeth yn hawliadau digolledu gwirfoddolwyr a'r rhai a ddiswyddir yn orfodol.

Caiff 52% o gostau diswyddiadau eu codi ar weithgareddau cyffredinol a 48% ar ddsbarthu arian y loteri.



Cefnogwyd

149

o brosiectau cyfnewid ac ymweliadau
rhyngwladol yn 2016/17

Khamira, India Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Staffio



Margaret Jervis
Cadeirydd y Pwyllgor
Adnoddau Dynol a
Chydnabyddiaeth Ariannol

Aelodau'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol a wasanaethodd ers 1 Ebrill 2016 oedd:

Margaret Jervis MBE DL (aelod o'r Cyngor)
hyd at 31 Mawrth 2017

Michael Griffiths OBE (aelod o'r Cyngor)

Andrew Miller (aelod o'r Cyngor)

Andy Eagle (aelod o'r Cyngor)
o 9 Rhagfyr 2016 ymlaen

Philip Westwood (aelod annibynnol)

Cyfle cyfartal

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Yn benodol, anela'r Cyngor at sicrhau na thrinnir yr un darpar gyflogai na chyflogai gwirioneddol yn fwy neu'n llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws o ran priodas neu fod yn rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Sicrha'r Cyngor fod cyfleusterau priodol ar gael i gyflogeion anabl. Mae'r arwyddion cyhoeddus hefyd yn hyrwyddo'r ffaith bod y Cyngor yn sefydliad dwyieithog.

Mae staff y Cyngor yn ffynhonnell amhrisiadwy o wybodaeth ac arbenigedd. Mae ar y Cyngor ddyletswydd gofal. Rydym eisiau i'n staff fod yn hyderus, yn gymwys ac yn fodlon, a chael pob cyfle i lwyddo yn eu gwaith.

Gweithreda'r Cyngor nifer o bolisiau Adnoddau Dynol sy'n adlewyrchu ei rwymedigaethau cyfreithiol ac yntau'n gyflogwr. Adolygir polisiau'n rheolaidd a'u diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau perthnasol yn y ddeddfwriaeth. Monitrir y rheolaeth dros bolisiau Adnoddau Dynol y Cyngor gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol.

Cyfathrebu â'r cyflogeion

Undeb llafur cydnabyddedig y Cyngor yw Unite Uno'r Undeb, ac mae wedi dod i gytundeb gweithdrefnol ag ef; mae cynrychiolwyr y rheolwyr a'r undeb yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion o bryder cyfredol.

Cynllun Pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogeion yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddion diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Yn unol â pholisiau cyfrifyddu'r Cyngor, rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol ag FRS 102 ac IAS 19.

Cyflwynodd y Cyngor hefyd gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, sy'n ddewis amgen i ddiwallu gofynion deddfwriaeth Cofrestru Awtomatig. Rhoddir cyfrif am y cynllun yn unol ag FRS 102 ac IAS 19.

Absenoldeb salwch

Yn ystod 2016/17 cyfanswm salwch y staff oedd 798 (2015/16: 584 o ddyddiau). Cynrychiolai hyn 3.67% (2015/16: 2.61%) sy'n seiliedig ar 251 o ddyddiau gwaith, gan gynnwys 1.84% (2015/16: 1.32%) o ganlyniad i absenoldeb hirdymor (am fwy na 28 o ddyddiau).

Ymgynghori

Yn ystod 2016/17 talodd y Cyngor gostau ymgynghori o £10,000 (2015/16: £12,000) parthed cael cyngor a barn arbenigol wrth wneud penderfyniadau strategol. Codir £5,000 (2015/16: £4,000) ar weithgareddau cyffredinol a £5,000 (2015/16: £8,000) ar ddsbarthu arian y loteri.

Trefniadau treth y bobl a benodir yn y sector cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn dangos manylion achosion o ddefnyddio gwasanaeth oddi ar y gyflogres am ragor na £220 y dydd sy'n para'n hwy na chwe mis:

	2016/17	2015/16
Nifer yr achosion newydd o ddefnyddio gwasanaeth rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth	-	48
Nifer yr uchod sy'n rhoi'r hawl i'r Cyngor ofyn am sicrwydd o ran rhwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol	-	48
Nifer y gofynnwyd am sicrwydd yn eu cylch	-	48
O'r rhain:		
nifer y cafwyd sicrwydd yn eu cylch	-	42
nifer na chafwyd sicrwydd yn eu cylch	-	6
Nifer a derfynwyd o ganlyniad i beidio â chael sicrwydd	-	-

Mae pob un o'r ymgysylltiadau hyn yn ymwneud â'r tîm o asiantau creadigol a gonacontractir i gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol o'n rhaglen, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*. Mae'r asiantau'n gweithio am nifer o ddyddiau y cytunir arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd gan weithredu'n gatalyddion drwy ymateb i'r blaenoriaethau datblygu ac anghenion unigol yr ysgol y maent wedi'u paru â hi. Defnyddiwyd trefniadau contractiol gwahanol o fis Ebrill 2016 ymlaen.

Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio

Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa'n gynllun buddion ddiffiniedig wedi'i chyllido a hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n rhan ohono nodi eu cyfrannau o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

Petai cyflogwr yn tynnu'n ôl, byddai'r ddyled a gâi ei hysgogi o dan adran 75 o Ddeddf Pensiynau 1995 yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio diffyg solfedd y Cynllun cyfan, nid cyfran asedau a rhwymedigaethau'r cyflogwr ei hun. Hefyd, pe câi'r Cynllun ei ddirwyn i ben, gan mai trefniant "y dyn olaf ar ei draed" ydyw, byddai'r holl gyflogwyr yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyfanswm y diffyg yn y Cynllun.

Nid yw'n ymarferol amcangyfrifo'r effaith ariannol.

Colledion, taliadau arbennig a rhoddion

Ni chododd y Cyngor unrhyw golledion yn ystod y flwyddyn ac ni wnaed unrhyw daliadau arbennig na rhoddion.

Cynhaliodd y Cyngor adolygiad sefydliadol yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, mae gan y Cyngor ymrwymadau i dalu digollediaid i aelodau o'r staff a fydd yn ymadael yn ystod 2017/18. Datgelwyd costau'r pecynnau yn yr Adroddiad ar Gynabyddiaeth Ariannol a Staff.

Incwm Ffioedd a Thaliadau

Nid oes gan y Cyngor incwm materol o'r fath.



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu
7 Gorffennaf 2017

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



Phil George
Cadeirydd
7 Gorffennaf 2017

Datganiadau Ariannol

Gweithgareddau Cyffredinol



The Golden Dragon,
Theatr Gerdd Cymru (llun: Clive Barda)

Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio

O dan Erthygl 11 o'r Siarter Frenhinol ddyddiedig 30 Mawrth 1994 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi am bob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon ar ffurf a sail a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru. Paratwir y cyfrifon ar sail cronladau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor ac o'i incwm a'i wariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r Datganiad o'r Ymarfer gan Elusennau, gan baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 ("y Datganiad") ac, i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad, *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisiau cyfrifyddu priodol ar sail gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn y Datganiad a *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Cyngor, yn y ddogfen *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu
7 Gorffennaf 2017

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



Phil George
Cadeirydd
7 Gorffennaf 2017

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Ymddiriedolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad am y Gweithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad am Lif yr Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad am Gydnyddiaeth Ariannol a'r Adroddiad am y Staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth wedi'i harchwilio.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd.

Fel yr esbonnir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr, ac yntau'n Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol ag Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir dano ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilywr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth ddigonol am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cyngor Celfyddydau Cymru

ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Cyngor Celfyddydau Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i mi gasglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant wedi'u cymhwyso i ddibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol sy'n cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal â hyn, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Perfformiad, yr Adolygiad Gweithredu a'r Adroddiad Atebolrwydd er mwyn nodi agweddau perthnasol sy'n anghyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf oblygiadau hynny i'm tystysgrif a'm hadroddiad.

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm net ar gyfer y flwyddyn honno a ddaeth i ben; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a wnaed dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor; ac
- mae'r wybodaeth a gafodd ei chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad, yr Adolygiad Gweithredu a'r Adroddiad Atebolwydd yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt ar sail eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion sy'n dilyn, y byddwn yn adrodd arnynt petawn i o'r farn:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad am Gydnyddiaeth Ariannol a'r Adroddiad am y Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;

- nad yw'r wybodaeth a fanylwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

11 Gorffennaf 2017

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygredd gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilydd yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Cyngor Celfyddydau Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	Nodyn	Cyllid anghyfyngedig £'000	Cyllid cyfyngedig £'000	2017 Cyfanswm £'000	2016 Cyfanswm £'000
INCWM					
<i>Rhoddion:</i>					
Cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru		30,226	750	30,976	32,238
Grantiau a rhoddion eraill	3	-	4,336	4,336	3,680
		<u>30,226</u>	<u>5,086</u>	<u>35,312</u>	<u>35,918</u>
<i>Incwm o weithgareddau elusennol:</i>					
Gwasanaethau a nawdd	4	215	53	268	201
<i>Incwm o fuddsoddiadau:</i>					
Llog banc		11	3	14	10
Incwm arall	5	134	-	134	85
Cyfanswm incwm		<u>30,586</u>	<u>5,142</u>	<u>35,728</u>	<u>36,214</u>
GWARIANT					
Gweithgareddau elusennol	6,7,8	30,363	4,642	35,005	35,272
Costau llywodraethu	9	81	-	81	85
Llog banc a ildwyd i Gronfa Gyfunol Cymru		11	-	11	10
Cyfanswm gwariant		<u>30,455</u>	<u>4,642</u>	<u>35,097</u>	<u>35,367</u>
Incwm/(gwariant) net		131	500	631	847
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd	16	(123)	123	-	-
Trosglwyddiadau net rhwng cronfeydd		<u>8</u>	<u>623</u>	<u>631</u>	<u>847</u>
Cysoni cronfeydd					
Balansau arian a ddygwyd ymlaen		1,406	587	1,993	1,146
Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen		<u>1,414</u>	<u>1,210</u>	<u>2,624</u>	<u>1,993</u>

Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 111 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mantolen gyfunol

fel ar 31 Mawrth 2017

		2017		2016 (ailldatganwyd)	
	Note	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau sefydlog					
Asedau sefydlog anniriaethol	10a		4		5
Asedau sefydlog diriaethol	10b		57		104
Cyfanswm asedau sefydlog			<u>61</u>		<u>109</u>
Asedau cyfredol					
Grantiau a dalwyd ymlaen llaw	11	219		300	
Dyledwyr	12	3,416		3,100	
Arian a chyfwerth ag arian		2,480		1,053	
Cyfanswm asedau cyfredol		<u>6,115</u>		<u>4,453</u>	
Rhwymedigaethau: yn ddyledus o fewn blwyddyn					
Credydwyr	13a	(2,866)		(2,109)	
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau	14	(49)		(49)	
		<u>(2,915)</u>		<u>(2,158)</u>	
Asedau cyfredol net			<u>3,200</u>		<u>2,295</u>
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			<u>3,261</u>		<u>2,404</u>
Credydwyr: yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn					
Credydwyr	13b	(177)		(152)	
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau	14	(460)		(259)	
			<u>(637)</u>		<u>(411)</u>
Asedau net			<u>2,624</u>		<u>1,993</u>
Arian yr elusen					
Cronfeydd anghyfyngedig	16		1,414		1,406
Cronfeydd cyfyngedig	16		1,210		587
			<u>2,624</u>		<u>1,993</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 111 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan



Nicholas Capaldi, Swyddog Cyfrifyddu
7 Gorffennaf 2017



Phil George, Cadeirydd
7 Gorffennaf 2017

Datganiad Llif Arian Cyfunol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	Nodyn	2017 £'000	2016 £'000
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol	18a	1,438	499
Mewnlif arian net o weithgareddau buddsoddi	18b	3	-
All-lif arian net yn gysylltiedig ag asedau cyfalaf	18c	(14)	(10)
		<hr/>	<hr/>
Newid mewn arian a chyfwerth ag arian yn ystod y flwyddyn		1,427	489
Arian a chyfwerth ag arian a ddygwyd ymlaen		1,053	564
Arian a chyfwerth ag arian a gariwyd ymlaen		<u>2,480</u>	<u>1,053</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 111 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Nodiadau sy'n rhan o'r Datganiadau Ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

1. Polisiâu cyfrifyddu

a. Sail y paratoi

Paratoir y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol a addasir i gynnwys rhai asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyfredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a bodlonant ofynion Deddfau Elusennau 2006, 2011 a 2016, y Datganiad o Ymarfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau gan baratoi ei gyfrif yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 (SORP) a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102). Yn ogystal â chydymffurfio â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau, rhoddir ystyriaeth i ofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir. Nodir isod grynodedb o'r prif bolisiau cyfrifyddu sydd wedi'u cymhwyso'n gyson.

b. Is-yngymeriadau – Cerdd Cymru:Music Wales Cyf

Cwmni masnachu preifat yw Cerdd Cymru:Music Wales, sy'n gyfyngedig drwy warant ac yn gofrestredig yng Nghymru (rhif 7759122). Fe'i hymgorfforwyd ar 1 Medi 2011 yn gyd-drefniant 50% â Sefydliad Cerdd Cymru i ddatblygu a gwella, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, wybodaeth, dealltwriaeth, ymarfer a chynaliadwyedd y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, ac yn arbennig cerddoriaeth, yng Nghymru.

Daeth Cerdd Cymru:Music Wales Cyf yn is-gwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor yn ystod 2016/17 yn dilyn diddymu Sefydliad Cerdd Cymru.

Mae trafodion yr is-gwmni wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol ar ddull 'llinell wrth linell'. (Gweler nodyn 21)

c. Incwm

Rhoddir cyfrif am bob incwm ar sail cronadau, heblaw am gymynroddion, cyfraniadau a rhoddion a gydnabyddir dim ond pan ddônt i law. Trinnir grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy fel incwm.

Ni chofnodir incwm yn wariant net yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

ch. Dosbarthu arian y Loteri

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn cwmpasu swyddogaeth y Cyngor i ddosbarthu arian y Loteri y paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar ei chyfer yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Âr Cyngor i gostau sy'n cynnal ei weithgareddau cyffredinol a'i swyddogaeth o ran dosbarthu arian y Loteri. Yn unol â'r Cyfarwyddyd Ariannol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, dosranna'r Cyngor gostau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes gweithgarwch hyn gan gyfeirio at yr amser a dreuliodd ar y gweithgareddau priodol neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddiwyd ganddynt.

d. **Gwariant**

Rhoddir cyfrif am bob gwariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddsbarthu dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

dd. **Grantiau a ddyfarnwyd**

Ceir gwariant cymhorthdal ar ffurf grantiau a gynigir yn ffurfiol i sefydliadau a gyllidir gan y Cyngor. Cynigir grantiau er mwyn cynnal rhaglen o weithgareddau y cynlluniwyd ar eu cyfer, neu sy'n cychwyn mewn blwyddyn ariannol benodol a chodir hwy ar Ddatganiad o Weithgareddau Ariannol y flwyddyn honno.

Ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ni chodir blaenymrwymiaidau a wneir yn y flwyddyn gysylltiedig â gweithgarwch y flwyddyn nesaf, fel y dywed nodyn 20. Am na ellir cydnabod y cymorth grant i gyflawni'r ymrwymiaidau hyn nes ei fod wedi dod i law, ni chred yr Ymddiriedolwyr y byddai ei gynnwys yn rhoi darlun cywir a theg o'r ffordd y defnyddir adnoddau'r Cyngor.

Dangosir grantiau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn yn gredydwy'r yn y Fantolen. Dangosir unrhyw daliadau ymlaen llaw a wnaed mewn perthynas â grantiau a gymeradwywyd yng nghyswllt gweithgareddau yn y flwyddyn nesaf yn y Fantolen fel asedau cyfredol.

Mae pob grant a gynigiwyd wedi'i restru yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

e. **Gwasanaethau a nawdd**

Mae'r gwasanaethau a nawdd yn cynnwys y costau uniongyrchol, gan gynnwys staff a dibrisiad, y gellir eu priodoli i weithgareddau elusennol.

f. **Dyrannu costau gweithredu**

Dyrannwyd costau gweithredu yn y lle cyntaf rhwng gweithgareddau elusennol a llywodraethu. Rhannwyd costau gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau elusennol i adlewyrchu'r amser a dreulir gan y staff wrth ddarparu gweithgareddau uniongyrchol a chefnogaeth i'w darparu. Mae dyraniad a dadansoddiad y costau hyn yn nodiadau 6, 7 ac 8.

ff. **Costau llywodraethu**

Mae costau llywodraethu yn cynnwys pob cost sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor fel elusen a'i gydymffurfiaeth â rheoleiddio ac arferion da. Dadansoddir y costau hyn yn nodyn 9.

g. **Arian tramor**

Caiff arian refeniw a gafwyd a gwariant yr aed iddo mewn arian tramor eu trosi yn unol â'r gyfradd gyffredinol ar adeg y trafodyn. Caiff unrhyw falansau a ddelir mewn arian tramor eu trosi yn unol â'r

gyfradd gyffredinol ar ddyddiad y Fantolen. Caiff trafodion a balansau a gwmpesir gan flaengontractau eu trosi yn unol â chyfradd y contract.

ng. Cydnabod rhwymedigaethau

Cydnabyddir rhwymedigaethau pan gyfyd ymrwymiad i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddigwyddiadau yn y gorffennol.

h. Cyfrifyddu cyllid

Cyllid cyfyngedig yw'r hyn sydd i gael ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a orfodir gan roddwyr neu sydd wedi'u codi gan y Cyngor at ddibenion penodol. Mae'r gost o godi a gweinyddu cyllid o'r fath wedi'i chodi ar y gronfa benodol. Nodir amcan a defnydd pob cyllid cyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cyllid anghyfyngedig yw'r hyn sydd ar gael i'w ddefnyddio yn ôl disgrisiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion ei siarter a nas dynodwyd at unrhyw ddibenion eraill.

Lle dyrennir costau cynnal i weithgareddau elusennol cyfyngedig trosglwyddir swm o'r cyllid anghyfyngedig i dalu'r costau hyn.

i. Asedau sefydlog

Mae'r Cyngor yn berchennog ar ddau eiddo rhydd-ddaliadol, Theatr Sherman a Stiwdio Ddawns Rubicon, sydd wedi'u gosod ar brydlesi hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gan y Cyngor a heb ddarpariaeth i'r Cyngor eu hailfeddiannu. Ar sail cyngor gan syrfewyr siartredig allanol ac annibynnol, bernir bod gwerth gweddilliol y buddiannau rhydd-ddaliadol hyn yn fach iawn felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Trinnir costau datblygu gwefan, yn unol ag FRS 102, fel asedau sefydlog diriaethol.

Trinnir trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol fel asedau sefydlog anniriaethol os ydynt yn cwmpasu mwy na blwyddyn.

Ac eithrio eiddo rhydd-ddaliadol, cynhwysir pob ased sefydlog diriaethol ac anniriaethol ar gost hanesyddol llai lwfans am ddibrisiad ac amorteiddiad. Ym marn y Cyngor, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerth ar bapur a gwerth y farchnad.

l. Amorteiddiad a dibrisiad

Caiff asedau unigol sy'n costio £1,000 neu fwy eu cyfalafu a rhoddir blwyddyn gyfan o amorteiddiad neu ddibrisiad ym mlwyddyn eu caffael. Darperir amorteiddiad ar asedau sefydlog anniriaethol a dibrisiad ar asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddiddymu cost neu brisiad pob ased i'w werth gweddilliol ar sail linol dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol	dros 3 blynedd
Gwelliannau prydlesol	dros gyfnod y brydles
Celfi, gosodiadau a ffitiadau	dros 10 mlynedd
Offer	dros 4 blynedd
Costau datblygu gwefan	dros 3 blynedd
System gyfrifiadurol	dros 3 blynedd

ll. Prydlesi

Codir costau prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail linol dros oes y brydles.

m. Pensiynau

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r cynllun pensiwn yn darparu buddion diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Codir am gostau cyfraniadau'r Cyngor ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel y gellir lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion.

Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig cyflogwr lluosog lle ni all y cyflogwr sy'n rhan ohono nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol ag FRS 102. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gytundeb i wneud taliadau i gyllido diffyg sy'n gysylltiedig â gwasanaeth a roddwyd ac felly'n cydnabod darpariaeth ar gyfer gwerth presennol cyfraniadau sy'n daladwy sy'n deillio o delerau'r cytundeb hwnnw. Codir y cyfraniad blynyddol tuag at y diffyg ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Cyflwynodd y Cyngor hefyd gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, sydd mewn grym ers 1 Mai 2014, fel dewis amgen i ddiwallu anghenion deddfwriaeth Cofrestru Awtomatig. Rhoddir cyfrif am y cynllun yn unol ag FRS 102.

n. Trethiant

Caiff Treth Ar Werth nad oes modd ei hadennill sy'n deillio o wariant ar weithgareddau nad ydynt yn rhai busnes ei chodi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu ei chyfalafu fel ased sefydlog lle y bo'n berthnasol.

o. Offerynnau ariannol

Asedau ariannol: Nid yw dyledwyr masnachol yn cario unrhyw log ac fe'u datgenir ar eu gwerth nominal fel y'u gostyngir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau amcangyfrifedig nad oes modd eu hadennill. Mae arian yn cynnwys arian mewn llaw ac arian yn y banc ac arian wedi'i gadw ar adnau tymor byr ar delerau sy'n caniatáu ei gael ar unrhyw adeg.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw credydwyr masnachol yn cario llog ac fe'u datgenir ar eu gwerth nominal.

2. Gweithgareddau cyffredinol a dosbarthu arian y Loteri: incwm cyfunol a gwariant elusennol ar y celfyddydau

Mae cyfrif dosbarthu arian y Loteri sydd ar wahân yn dangos bod cyfran y Cyngor yn 2016/17 o'r elw o'r Loteri Genedlaethol yn £16,300,000 (2015/16: £19,233,000). Ar gyfer 2016/17, cyfanswm cyfunol yr incwm o weithgareddau cyffredinol a'r Loteri oedd £52,147,000 (2015/16: £55,588,000). Ar gyfer 2016/17, cyfanswm cyfunol y gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau oedd £51,421,000 (2015/16: £51,721,000).

3. Incwm

Rhoddion: Grantiau a rhoddion eraill

	Cyllid anghyfyngedig £'000	Cyllid cyfyngedig £'000	2017 Cyfanswm £'000	2016 Cyfanswm £'000
Rhaglen <i>Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau</i> (nodyn 22):				
Grant gan Lywodraeth Cymru	-	1,900	1,900	1,787
Grant gan y Loteri i Gyngor Celfyddydau Cymru	-	2,283	2,283	1,890
Cyfraniad y British Council i India:Cymru	-	150	150	-
Ymddiriedolaeth Eirian Llwyd	-	3	3	3
	-	4,336	4,336	3,680

4. Incwm o weithgareddau elusennol

Gwasanaethau a nawdd

	Cyllid anghyfyngedig £'000	Cyllid cyfyngedig £'000	2017 Cyfanswm £'000	2016 Cyfanswm £'000
Cynllun Teithio Cymunedol:				
- cyfraniadau gan leoliadau/hyrwyddwyr	135	-	135	138
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru:				
- cyfraniadau gan y British Council	23	5	28	-
- cyfraniadau gan eraill	-	8	8	5
Taliadau'r <i>Cynllun Casglu</i> – ffioedd orielau	41	-	41	39
Cynhadledd Flynyddol – ffioedd cynadleddwyr	9	-	9	-
Nesta – ar gyfer <i>Arloesi Digidol</i>	7	-	7	18
Incwm arall	-	-	-	1
	215	13	228	201

5. Incwm arall

	Cyllid anghyfyngedig £'000	Cyllid cyfyngedig £'000	2017 Cyfanswm £'000	2016 Cyfanswm £'000
Cyfraniad o gyfrif Dosbarthu Arian Loteri:				
am ddefnyddio asedau sefydlog	30	-	30	39
am daliad blynyddol tuag at ddiffyg pensiwn	23	-	23	-
Elw o waredu asedau diriaethol	1	-	1	-
Incwm Cerdd Cymru: Music Wales (nodyn 21)	80	-	80	46
	134	-	134	85

6. Gwariant

Gweithgareddau elusennol

	Gweithgareddau uniongyrchol £'000	Cyllid grant £'000	Costau grant £'000	2017 Cyfanswm £'000	2016 Cyfanswm £'000
Rhoi grantiau a datblygu'r celfyddydau	1,446	26,499	504	28,449	28,833
Rhaglen <i>Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau</i> (nodyn 22)	1,625	2,120	37	3,782	3,372
Strategaeth y celfyddydau	858	-	197	1,055	1,138
Rhyngwladol	484	-	75	559	779
Gwasanaethau: <i>Noson Allan a'r Cynllun Casglu</i>	593	-	73	666	660
Dadleuaeth ac ymchwil	371	-	42	413	430
Lleihad y buddsoddiad yng Ngherdd Cymru: Music Wales (nodyn 21)	-	-	-	-	15
Gwariant Cerdd Cymru: Music Wales (nodyn 21)	81	-	-	81	45
	5,458	28,619	928	35,005	35,272

Cyllid grant:

	i sefydliadau £'000	i unigolion £'000	2017 Cyfanswm £'000	2016 Cyfanswm £'000
o gronfeydd anghyfyngedig				
Portffolio Celfyddydol Cymru	25,540	-	25,540	26,716
Dyfarniadau strategol	211	2	213	370
o gronfeydd cyfyngedig				
Portffolio Celfyddydol Cymru	300	-	300	300
Rhaglen <i>Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau</i>	2,120	-	2,120	2,386
Dyfarniadau strategol	111	-	111	370
Dyfarniadau cyfalaf	326	-	326	55
Dyfarniadau coffa	-	9	9	9
	28,608	11	28,619	29,836

Rhestrir pob grant yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

7. Costau gweithredu

	Costau gros	Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Gronfa Dosbarthu Arian y Loteri	2017 Swm net godir ar Weithgareddau Cyffredinol	2016 Swm net godir ar Weithgareddau Cyffredinol
	£'000	£'000	£'000	£'000
A godir ar Weithgareddau Uniongyrchol (nodyn 6)				
Rhoi grantiau a datblygu'r celfyddydau	774	449	325	187
Strategaeth y Celfyddydau	251	124	127	96
Rhyngwladol	48	-	48	39
Gwasanaethau: <i>Noson Allan a'r Cynllun Casglu</i>	47	-	47	37
Dadleuaeth ac ymchwil	45	18	27	19
	1,165	591	574	378
A godir ar Gostau Cynnal (nodyn 6)				
Costau cysylltiedig â'r staff	38	13	25	21
Adolygiad Sefydliadol	5	2	3	-
Seilwaith	201	73	128	122
Costau rhedeg swyddfa	10	4	6	6
Ffioedd proffesiynol	59	44	15	10
Darpariaethau	90	-	90	(14)
TAW nad oes modd ei hadennill	52	21	31	30
Amorteiddiad a dibrisiad	29	7	22	28
	484	164	320	203
Cyfanswm	1,649	755	894	581

8. Costau staff

a. Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys:

	Cyflogedig eyn barhaol	Arall	Costau gros	Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Gronfa Dosbarthu Arian y Loteri	2017 Swm net a godir ar Weithgareddau Cyffredinol	2016 Swm net a godir ar Weithgareddau Cyffredinol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	2,670	461	3,131	931	2,200	2,039
Costau nawdd cymdeithasol	289	43	332	101	231	168
Costau pensiwn eraill	561	64	625	213	412	413
Costau dileu swyddi	527	-	527	255	272	-
Costau asiantaeth	3	-	3	1	2	-
	4,050	568	4,618	1,501	3,117	2,620

Corfforir costau staff yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

A godir ar Weithgareddau Uniongyrchol (nodyn 6)

Rhoi grantiau a datblygu'r celfyddydau	2,007	887	1,120	831
Rhaglen <i>Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau</i>	497	-	497	284
Strategaeth y Celfyddydau	684	246	438	428
Rhyngwladol	166	-	166	173
Gwasanaethau – <i>Noson Allan a'r Cynllun Casglu</i>	162	-	162	165
Dadleuaeth ac ymchwil	124	30	94	86
	3,640	1,163	2,477	1,967

A godir ar Gostau Cynnal costs (nodyn 6)

Rheoli a rheolaeth fewnol	343	116	227	240
Cyllid	178	64	114	112
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	154	52	102	106
Rheoli cyfleusterau	68	23	45	47
Adnoddau dynol	73	25	48	44
Cyfathrebu	113	41	72	72
	929	321	608	621

A godir ar Lywodraethu (nodyn 9)

Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd	49	17	32	32
	4,618	1,501	3,117	2,620

Nifer gyfartalog y staff (cyfwerth ag amser llawn)
a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

				2017	2016
			Ar	Ar	Ar
	Cyflogedig yn barhaol	Arall	Ar draws y Cyngor cyfan	Weithgareddau Cyffredinol	Weithgareddau Cyffredinol
			Dosbarthu Arian Y Loteri		
Ar weithgareddau elusennol:					
a godir yn uniongyrchol	8	12	20	20	16
yr ailgodwyd symiau	55	-	55	33	34
I gynorthwyo â'n gweithgareddau elusennol	10	3	13	6	6
Staff asiantaeth	-	-	-	-	-
	73	15	88	59	56

Cyfansoddiad y staff ar 31 Mawrth (cyfwerth ag amser llawn – Cyngor cyfan)	2017			2016		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Tîm Uwch-reolwyr	3	3	6	3	3	6
Rheolwyr Portffolios / Penaethiaid Adrannau	7	10	17	6	10	16
Uwch Swyddogion	6	7	13	7	7	14
Swyddogion / Swyddogion Datblygu	12	22	34	11	22	33
Cydgysylltwyr Timau / Cynorthwywyr Personol	3	17	20	5	14	19
	31	59	90	32	56	88
	34%	66%		36%	64%	

	2017	2016
Dyma'r gydnabyddiaeth flynyddol gyfanrifol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (Cyngor cyfan):	£31,700	£31,072

Dyma ystod y gydnabyddiaeth flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (Cyngor cyfan):	£20,147 to £95,250	£19,752 to £95,248
---	-----------------------	-----------------------

Dyma'r gymhareb rhwng y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol a chydabyddiaeth ariannol flynyddol yr aelod o'r staff â'r cyflog uchaf (Cyngor cyfan):	1:3	1:3
---	-----	-----

Cynlluniau digolledu – pecynnau ymadael (Cyngor cyfan):

Band cost pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16
£10,000 i £24,999	-	-	3	-	3	-
£25,000 i £49,999	-	-	3	-	3	-
£50,000 i £99,999	2	-	3	-	5	-
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	2	-	9	-	11	-
Cyfanswm y gost (£'000)	167	-	360	-	527	-

Pennwyd y costau diswyddiadau yn unol â darpariaethau polisi diswyddiadau'r Cyngor. Fel arfer, mae'r Cyngor yn talu costau ymadael pan fo'r gyflogaeth yn dod i ben ond darpara ar gyfer y costau ymadael yn llawn ar yr adeg pan fo gwybodaeth sy'n ddigon manwl ar gael i wneud hynny.

Roedd pob un o'r 'ymadawiadau eraill a gytunwyd' yn ymwneud â cheisiadau am ddiswyddiad lle, yn unol â pholisi diswyddiadau'r Cyngor, mae swyddi'r cyflogeion naill ai wedi diflannu yn y strwythur newydd neu wedi'u llenwi gan gyflogeion eraill a fyddai fel arall wedi'u diswyddo'n orfodol. Nid oes gwahaniaeth yn hawliadau digolledu gwirfoddolwyr a'r rhai a ddiswyddir yn orfodol.

Caiff 52% o gostau diswyddiadau eu codi ar weithgareddau cyffredinol a 48% ar ddsbarthu arian y loteri.

- b. Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr – y Tîm Uwch-reolwyr – sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a'u buddion pensiwn fel y dangosir yn y tablau canlynol.

Mae swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at un cyfanswm ffigurau cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth ac yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994.

Dyma sut y cyfrifir gwerth buddion pensiwn:

(cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn* x 20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wnaed gan yr aelod)

*gan eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ond cyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn, er enghraifft newidiadau yng nghyflog rhywun, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyfan.

Un cyfanswm ffigurau cydnabyddiaeth ariannol y Tîm Uwch-reolwyr:

Enw <i>Swydd/Safle</i>	2017			2016		
	Band taliadau £'000	Buddion pensiwn £'000	Un cyfanswm taliadau £'000	Band taliadau £'000	Buddion pensiwn £'000	Un cyfanswm taliadau £'000
Nicholas Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	95-100	22	115-120	95-100	27	120-125
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	70-75	17	85-90	70-75	22	90-95
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi a Chyllido</i>	65-70	36	105-110	65-70	54	120-125
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi</i>	65-70	28	95-100	65-70	38	100-105
Siân Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</i>	65-70	35	100-105	65-70	48	110-115
Hywel Tudor† <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	70-75	16	85-90	70-75	24	90-95

† Telir i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ddigollediad o £95,000 (gros) am golli swydd yn ystod 2017/18. Nid yw'r swm wedi'i gynnwys yn ei un cyfanswm ffigur cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn hon ond caiff ei gynnwys yng nghyfanswm costau diswyddo a digolledu yn nodyn 8a uchod.

Buddion pensiwn y Tîm Uwch-reolwyr:

Enw <i>Swydd / Safle</i>		2017 Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed £'000		2017 Cyfanswm pensiwn cronodig yn 65 oed fel ar 31/03/17 a chyfandaliad cysylltiedig £'000		2017 Gwerth trosglwyddo ¹ cyfwerth ag arian parod ar 31/03/17 £'000		2016 Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31/03/16 £'000		2017 Cynnydd gwirioneddol ² yn y Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod £'000
Nicholas Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfandaliad	10-15 30-35		220		167		21
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 0-2.5	Pensiwn Cyfandaliad	5-10 25-30		227		187		18
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi a Chyllido</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfandaliad	25-30 75-80		555		437		34
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgysylltu</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfandaliad	10-15 40-45		323		252		27
Siân Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0.2-5 5-7.5	Pensiwn Cyfandaliad	20-25 60-65		470		361		33
Hywel Tudor <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 0.2-5	Pensiwn Cyfandaliad	10-15 40-45		324		268		16

¹ Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod - Ystyr Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddion a brisir yw buddion cronodig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan ymedy'r aelod â'r cynllun a dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn y cynllun blaenorol. Noda'r ffigurau pensiwn a ddangosir y buddion a gronwyd gan yr unigolyn ar ôl dod yn aelod llawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Cynnwys y ffigurau werth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i Gynllun Ymdeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Cynhwysant hefyd unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnodd aelod drwy brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariad ac nid ystyria unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawllir buddion pensiwn.

² Cynnydd Gwirioneddol yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod - Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Ni chynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronodig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) a defnyddia ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, caiff y Cadeirydd dâl am ei wasanaethau ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Ni thelir Aelodau eraill o'r Cyngor nac Aelodau o'r Pwyllgorau am eu gwasanaethau. Mae costau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2016/17 yn cynnwys cyfanswm o £10,893 (2015/16: £13,759) a ad-dalwyd i 12 (2015/16: 13) o aelodau'r Cyngor.

Roedd cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynnwys y canlynol:

	2017	2016
	£	£
Cadeirydd		
Cyflog	43,810	43,810
Prif Weithredwr		
Cyflog	95,250	95,248
Cyfraniad pensiwn y cyflogwr	19,050	19,050
	<u>114,300</u>	<u>114,298</u>

Treuliau teithio a chynhaliaeth a ad-dalwyd yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor:

Cadeirydd	4,298	2,217
Prif Weithredwr	5,489	5,925

Codir 64% (2015/16: 64%) o daliadau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn y datganiadau ariannol hyn a'r gweddill ar weithgareddau dosbarthu arian y loteri.

- c. Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogeion yn aelodau o Gynllun Ymdeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddion diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Rhoddwyd cyfrif am y cynllun felly fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol ag FRS 102.

Fel arfer, caiff prisiad actiwariadaid annibynnol o'r Cynllun ei gynnal bob tair blynedd. Daeth y prisiad diweddaraf, fel ar 31 Mawrth 2016, i rym ar 1 Ebrill 2017. Cyflwynai'r prisiad newydd gyfraddau cyfrannu newydd mewn perthynas â chronni buddion. Tybia ei bod yn parhau'n ofynnol i lefel isafswm o daliad gael ei wneud bob blwyddyn tuag at y diffyg gwasanaeth blaenorol, ar gyfradd a gynghorir gan actiwari'r cynllun. Er mwyn gwaredu'r diffyg, argymhellodd yr actiwari lefel o gyfraniadau cyflogwr dros y 12 mlynedd nesaf, o gymharu â'r 9 mlynedd a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

Ar y dybiaeth y byddai'r symiau a argymhellwyd yn cael eu talu i'r Cynllun, barn yr actiwari oedd bod adnoddau'r cynllun yn debygol, yng nghwrs arferol digwyddiadau, o gyflawni rhwymedigaethau'r cynllun yn llawn wrth iddynt ddod yn daladwy. Dyma'r prif dybiaethau actiwariadaid a ddefnyddiwyd: mai cromlin chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu a ymhlygir gan y farchnad (gyda lwfans ar gyfer 0.3% y flwyddyn o bremiwm risg chwyddiant) fyddai chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu; mai cromlin Mynegai Prisiau Manwerthu llai 1.0% y flwyddyn fyddai chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr; byddai cynnydd cyflogau yn 1.5% y flwyddyn am y 4 blynedd gyntaf ac yn unol â Mynegai Prisiau Manwerthu wedi hynny; byddai cynnydd pensiwn yn hafal i'r dybiaeth chwyddiant berthnasol; ac mai cromlin arenillion gilt a ymhlygir gan y farchnad plws 1.2% y flwyddyn fyddai cyfradd ddisgowntio gwasanaeth y gorffennol a'r dyfodol.

Dyma'r cyfraniadau gan y Cyngor a'i gyflogeion:

I staff a ymaelododd â'r Cynllun:	Cyngor		Cyflogeion	
	2017	2016	2017	2016
ar neu cyn 31 Awst 2006	22.0%	22.0%	1.5%	1.5%
rhwng 1 Medi 2006 a 31 Mawrth 2010	20.0%	20.0%	3.5%	3.5%
ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010	17.5%	17.5%	6.0%	6.0%

Roedd hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gyfrannu taliad lleiafswm o £48,700 tuag at y diffyg yn ystod 2016/17 (2015/16: £48,700).

O 1 Ebrill 2017 newidiodd y cyfraniadau i'r canlynol:

I staff a ymaelododd â'r Cynllun:	Cyngor	Cyflogeion ¹
ar neu cyn 31 Awst 2006	21.4%	3.0%
rhwng 1 Medi 2006 a 31 Mawrth 2010	21.4%	5.0%
ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010	21.4%	6.0%

¹ Cytunwyd y bydd cyfraniadau'r holl gyflogeion yn cynyddu i 6% erbyn Ebrill 2019.

Ni fu unrhyw newidiadau i'r cyfraddau cyfrannu hyn tuag at y diffyg.

Mae'r Cyngor hefyd yn talu cyflog pensiynadwy o 0.2% mewn perthynas â phob aelod sy'n cael yswiriant bywyd yn unig.

Dan ddeddfwriaeth Cofrestru Awtomatig bydd yn ofynnol i bob cyflogai cymwys ymaelodi â chynllun pensiwn cymwys, oni fo'n optio allan yn ffurfiol. Cyflwynasom gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, yn ddewis amgen i gyflogeion nad oeddent yn aelodau o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau. Mae'r Cyngor yn cyfrannu 4% ac mae'r cyflogai'n cyfrannu 1%. Bydd y cyfraddau hyn yn newid yn y dyfodol, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

9. Adnoddau a wariwyd
Costau llywodraethu

	2017 Cyfanswm £'000	2016 Cyfanswm £'000
Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd	32	32
Cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd – Archwilio	22	22
Archwiliad mewnol	11	16
